



DRAFFT

Cyngor Sir y Fflint

Ddatganiad Polisi Trwyddedu

Rhagfyr 2021 – Rhagfyr 2026

Cynnwys

1.0 Cefndir	4
2.0 Cwmpas ac Ystent y Ddeddf Trwyddedu	5
3.0 Amcanion Trwyddedu	9
4.0 Effaith gronnus	17
5.0 Cynllunio a Rheoli Adeiladu	19
6.0 Cais am Drwydded/ Tystysgrif Tro Cyntaf ac Amrywio Telerau ac Amodau presennol	20
7.0 Digwyddiadau Dros Dro	22
8.0 Trwyddedau Personol	24
9.0 Tystysgrif Adeilad Clwb	25
10.0 Atodlen Weithredu	26
11.0 Oriau Gweithredu	27
12.0 Gorfodaeth, Adolygiadau a Phwerau	28
13.0 Y Broses Drwyddedu	29
14.0 Y Pwyllgor Trwyddedu	32
15.0 Ystyriaethau Arbennig	33
16.0 Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015	35
17.0 Y Gofrestr Drwyddedu	33
Atodiad A	37
Atodiad B	39
Atodiad C	41
Atodiad D	43
Atodiad E	46

Rhagair gan gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint

Dyma'r pumed Datganiad o Bolisi Trwyddedu Sir y Fflint.

Mae Deddf Trwyddedu 2003 wedi bod mewn grym am fwy na pymtheg mlynedd, ac wedi gweld llawer o newidiadau a diwygiadau yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae'r profiad a fagwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cyfrannu at sicrhau bod gan gwsmeriaid ddewis eang o eiddo i ymweld â nhw, bod deiliaid trwyddedau wedi cael eu cefnogi drwy gyfnodau economaidd anodd, a bod trigolion sy'n byw ger eiddo trwyddedig yn cael datrysiadau os ydynt yn dioddef aflonyddu o unrhyw fath.

Mae Trwyddedu yn Sir y Fflint wedi'i leoli yn Adain Gwarchod y Gymuned a Busnesau ym Mhortffolio Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi gyda Safonau Masnach a Diogelwch Cymunedol.

Mae hyn yn golygu y gall llawer o'r materion sy'n ymwneud ag alcohol, er enghraifft gwerthu i rai dan oed, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thorri amodau'r drwydded gael eu trin gan yr un Adran a thrwy hynny'n darparu dull mwy effeithiol a chyson.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Trwyddedu ei hun yn cynnwys Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat (Taksi) a'r Ddeddf Gamblo yn ogystal â thrwyddedu alcohol ac adloniant. Mae gan y meysydd hyn unwaith eto synergedd naturiol sy'n darparu ar gyfer dull wedi'i gydlynu'n dda.



Y Cyngorydd Tony Sharps

*Cadeirydd y Pwyllgor
Trwyddedu*

1.0 | Cefndir

- 1.1** Cafodd y Datganiad Polisi Trwyddedu ei gyhoeddi fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Trwyddedu 2003 ('y Ddeddf') ac mae'n unol â'r Swyddfa Gartref a'r Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau, a Chwaraeon (DCMS) canllawiau i awdurdodau lleol. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r polisiâu y bydd y Cyngor, fel Awdurdod Trwyddedu yn eu dilyn wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau am:
- ▶ Gwerthu alcohol
 - ▶ cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb, neu i orchymyn, i aelod o'r clwb.
 - ▶ Darparu lluniaeth hwyr y nos (cyflenwi bwyd neu ddiod boeth o adeilad rhwng 23:00 a 05:00 o'r gloch)
 - ▶ Darparu adloniant rheoleiddiedig ar gyfer y cyhoedd neu aelodau clwb neu gyda golwg ar wneud elw gan gynnwys codi arian ar gyfer elusen lle mae'r adloniant yn cynnwys:
 - a) perfformio drama;
 - b) arddangos ffilm;
 - c) digwyddiad chwaraeon dan do;
 - d) adloniant bocsi neu ymaflyd codwm;
 - e) perfformiad cerddorol byw;
 - f) chwarae unrhyw gerddoriaeth sydd wedi'i recordio;
 - g) perfformiad dawn;
 - h) adloniant tebyg i'r rhai a ddisgrifir ym mharagraff e, f neu g.
- * Deddf Cerddoriaeth Fyw - Gweler Atodiad D

Mae'r adloniant yn dod o fewn y gofynion pan fydd yn cael ei gynnal ym mhresenoldeb cynulleidfa ac yn cael ei ddarparu ar gyfer y pwrpas neu gynnwys y diben o ddifyrru'r gynulleidfa honno.

- 1.2** Ni fydd cerddoriaeth fyw achlysurol a cherddoriaeth achlysurol wedi'i recordio yn cael ei ystyried yn adloniant rheoledig. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi y gair "achlysurol" ei ystyr cyffredin a naturiol wrth wneud dyfarniadau ynghylch a yw gweithgareddau yn drwyddedadwy.
- 1.3** Nid yw cerddoriaeth ddigymell, canu a dawnio yn cael ei gynnwys yn y diffiniad o adloniant rheoledig a bydd unrhyw achos ohono yn cael ei asesu yn unol â'r Ddeddf.
- 1.4** Mae canllawiau ar y gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan ymgeiswyr a gwrthwynebwyr yn Atodiad A y ddogfen hon.

2.0 | Cwmpas ac Ystent y Ddeddf Trwyddedu

2.1 Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Trwyddedu i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf gyda'r bwriad o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, sef:

- ▶ Atal Trosedd ac Anhrefn
- ▶ Diogelwch y cyhoedd
- ▶ Atal Niwsans Cyhoeddus
- ▶ Amddiffyn plant rhag niwed

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod pob amcan yr un mor bwysig ac nad oes unrhyw rai eraill.

Cydnabyddir na all y swyddogaeth drwyddedu weithredu ar wahân yn y gwaith o gyflawni'r amcanion uchod. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu felly'n parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'i chymunedau lleol, yr heddlu, busnesau lleol, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r holl randdeiliaid perthnasol eraill. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod y sector preifat a thrigolion lleol a grwpiau cymunedol â rôl yr un mor hanfodol fel cyrff cyhoeddus.

2.2 Wrth ymgymryd â'i swyddogaeth drwyddedu, mae unrhyw awdurdod trwyddedu hefyd yn cael ei rwymo gan ddeddfwriaeth arall, ac mae enghreifftiau o'r rhain wedi'u nodi isod:

- ▶ Mae Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 angen i awdurdod lleol wneud popeth a all yn rhesymol i atal trosedd ac anhrefn yn ei ardal
- ▶ Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a weithredir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ddiogelu hawliau unigolion mewn amrywiaeth o amgylchiadau
- ▶ Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- ▶ Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- ▶ Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995
- ▶ Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- ▶ Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus dynodedig) 2007
- ▶ Deddf Iechyd 2006 a Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc (Cymru) 2007
- ▶ Deddf Gostwng Troseddau Treisgar 2006
- ▶ Deddf Cydraddoldeb 2010
- ▶ Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
- ▶ Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012
- ▶ Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014

Pan fydd y gyfraith eisoes yn gosod rhwymedigaethau statudol ar ymgeiswyr, ni fydd y Cyngor yn gosod yr un dyletswyddau neu ddyletswyddau tebyg, drwy amodau trwydded.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ceisio cyflawni ei gyfrifoldebau a nodwyd yn Strategaethau eraill y Llywodraeth, i'r graddau y maent yn effeithio ar amcanion y Ddeddf Drwyddedu. Mae enghreifftiau o'r strategaethau hyn wedi'u nodi isod:

- ▶ Cynllun Gweithredu ar gyfer Mynd i'r Afael â Throseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol, Anhrefn a Niwsans
- ▶ LGR / TSI Cod Arfer Gorau ar Brawf Prynu
- ▶ Strategaeth Lleihau Troseddau ac Anhrefn
- ▶ Taclo Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Gyda'n Gilydd
- ▶ Polisi Gorfodaeth
- ▶ Cynllun Cludiant

2.3 Byddai'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn tynnu sylw at, ac yn gefnogol o, fentrau presennol sy'n berthnasol i drwyddedu, er enghraifft:

- ▶ Cynlluniau Noswaith Ddiogel
- ▶ Cynlluniau profi oedran
- ▶ Teledu cylch cyfyng mewn canol trefi
- ▶ Gorchmynion Gwahardd o ganol trefi
- ▶ Cynlluniau 'Pubwatch'
- ▶ Cynlluniau 'Off-watch'
- ▶ Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint
- ▶ Strategaeth 'Galw Amser Newid' Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

2.4 Amcan y broses drwyddedu yw caniatáu cario ymlaen i adwerthu alcohol a darparu gweithgareddau trwyddedig mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch y cyhoedd ac sydd ddim ar draul trigolion, nac yn arwain at golli amwynder. Dymuniad yr Awdurdod Trwyddedu yw i hwyluso eiddo wedi'u rhedeg a'u rheoli'n dda gyda deiliaid trwyddedau'n dangos sensitifrwydd i effaith yr eiddo ar drigolion lleol.

2.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod y diwydiant adloniant yn Sir y Fflint yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol. Mae'n denu twristiaid ac ymwelwyr, yn creu trefi a phentrefi bywiog ac yn gyflogwr mawr. Mae gan ddeiliaid masnachol eiddo ddisgwyliad dilys o amgylchedd sy'n ddeniadol a chynaliadwy ar gyfer eu busnesau. Ond rhaid cael cydbwysedd ag anghenion y boblogaeth breswyl, y mae'n ddyletswydd i'r Awdurdod Trwyddedu amddiffyn ei amwynder.

2.6 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ystyried ystyriaethau ehangach sy'n effeithio ar amwynder unrhyw ardal. Mae'r rhain yn cynnwys taflu sbwriel a baeddu, sŵn, troseddu ar y strydoedd a chapasiti isadeiledd ac adnoddau'r Sir ac adnoddau'r heddlu i ymdopi gyda mewnlif o ymwelwyr, yn enwedig yn y nos.

2.7 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi mabwysiadu'r polisi hwn, sy'n nodi'r dull cyffredinol y bydd yn cymryd pan fydd yn gweithredu fel Awdurdod Trwyddedu o ran ystyried ceisiadau am drwyddedau eiddo. Wrth fabwysiadu'r polisi hwn, mae'r

Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau.

- 2.8** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod yr angen i annog a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr er lles diwylliannol ehangach cymunedau, ac yn arbennig, plant. Wrth benderfynu ar amodau i'w gosod ar drwyddedau a thystysgrifau bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn osgoi mesurau sy'n atal cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau diwylliannol trwy osod costau anuniongyrchol.
- 2.9** Efallai y bydd y Cyngor yn ceisio trwyddedau eiddo yn ei enw ei hun ar gyfer manau cyhoeddus fel sgwariau marchnad, strydoedd i gerddwyr yn unig, ac yn y blaen fel y gall gweithgareddau cymunedol gael eu cynnal yn rhwydd. Yn y fath leoedd diffiniedig, ni fyddai angen i berfformwyr a diddanwyr gael trwydded eu hunain na chyhoeddi unrhyw hysbysiadau digwyddiad dros dro. Y cyfan fyddai angen iddynt wneud fyddai gofyn am ganiatâd gan y Cyngor fel deiliad y drwydded eiddo. (Ni fyddai'r Cyngor yn gofyn am awdurdod i ganiatáu gwerthu neu gyflenwi alcohol ar gyfer yr ardaloedd hyn).
- 2.10** Diben y Datganiad Polisi Trwyddedu yw cynorthwyo Swyddogion ac Aelodau wrth ddod i benderfyniad ar gais penodol gan fanylu ar y materion hynny a fydd fel arfer yn cael eu hystyried. Yn ogystal, mae'r ddogfen Bolisi yn ceisio darparu eglurder i ymgeiswyr, trigolion a deiliaid eraill o eiddo a buddsoddwyr, gan eu galluogi i wneud cynlluniau i symud, aros neu fuddsoddi yn y Sir gyda rhywfaint o sicrwydd.
- 2.11** Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn darparu ar gyfer y polisi hwn gael ei ymgynghori a'i adolygu o leiaf bob pum mlynedd. Yn unol â hynny, bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu ddim hwyrach na Rhagfyr 2026. Gellir gwneud newidiadau dros dro iddo, er enghraifft, yn dilyn adborth gan y gymuned leol ynglŷn ag a yw'r amcanion trwyddedu yn cael eu bodloni.
- 2.12** Bydd y Cyngor hefyd yn monitro effaith trwyddedu ar adloniant wedi'i reoleiddio i sicrhau nad yw digwyddiadau diwylliannol yn cael eu rhwystro gan amodau trwyddedu diangen, anghymesur neu afresymol. Bydd Swyddogion Datblygu Celfyddydau'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar hyn.
- 2.13** Fel rheol bydd y polisi yn berthnasol i unrhyw gais am drwydded a benderfynir ar ôl y dyddiad y bydd y Cyngor yn penderfynu gwneud y polisi yn weithredol, heb ystyried y dyddiad y cafodd y cais ei wneud. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu ond yn gwyro oddi wrth y polisi, os bydd amgylchiadau unigol yr achos yn teilyngu hynny, er budd amcanion trwyddedu. Bydd rhesymau llawn dros wriad o'r fath yn cael ei roi.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r categorïau canlynol:

- ▶ Trwyddedau eiddo
- ▶ Tystysgrif Eiddo Clwb
- ▶ Trwyddedau Personol
- ▶ Gweithgareddau Dros Dro a Ganiateir (Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro)

- 2.14** Yn achos eiddo sydd angen Trwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb gall yr Awdurdod Trwyddedu ddewis amodau priodol ac angenrheidiol o gronfa amodau'r DCMS neu Sefydliad Trwyddedu. Bydd yr amodau hyn yn briodol i natur y gweithgareddau a nodir yn yr atodlen weithredu, ac adlewyrchu'r pedwar amcan trwyddedu a nodwyd ym mharagraff 1.5 uchod.

3.0 | Amcanion Trwyddedu

Cyflwyniad

O fewn cyd-destun hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i'r ymgeiswyr gynnig amodau trwyddedu i leihau effaith y gall eu safle gael ar iechyd a lles eu cwsmeriaid, y gymdogaeth a'r gymuned ehangach.

Trosedd ac Anhrefn

Dylai'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu a'r gweithdrefnau a'r amodau sy'n ffurfio rhan o'r broses hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu

- 3.1** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal. Bydd amodau ynghlwm wrth drwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb, cyn belled ag y bo modd, yn adlewyrchu strategaethau atal trosedd lleol, e.e. darparu camerâu teledu cylch cyfyng mewn rhai eiddo.
- 3.2** Un o flaenoriaethau allweddol Partneriaeth Lleihau Trosedd ac Anhrefn Sir y Fflint yw lleihau lefel y troseddu mewn ardaloedd penodol. Bydd y polisi yn rhoi sylw, felly, i effaith debygol trwyddedu ar drosedd ac anhrefn cysylltiedig yn ardal y Cyngor, yn enwedig wrth ystyried y lleoliad a'r effaith a gweithrediad a rheolaeth bob cais arfaethedig am drwydded, adnewyddu ac amrywio amodau.
- 3.3** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn talu sylw dyledus i sylwadau Heddlu Gogledd Cymru sy'n un o'r Awdurdodau Cyfrifol yr ymgynghorir â nhw ynghylch trwydded eiddo a cheisiadau am tystysgrif eiddo clwb, a Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro.

Cyffuriau

- 3.4** O fewn cyd-destun hyrwyddo amcanion trwyddedu ar gyfer atal trosedd ac anhrefn a sicrhau diogelwch cyhoeddus, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr a dalwyr trwydded i:
 - Gymryd holl gamau rhesymol i atal cyffuriau rhag dod mewn i'r eiddo trwyddedig
 - Cymryd holl gamau rhesymol i atal cyffuriau rhag newid dwylo o fewn yr eiddo
 - Hyfforddi staff i gydnabod a deall arwyddion o gamddefnyddio cyffuriau mewn pobl fel y gellir cymryd camau ymarferol i ddelio â digwyddiadau
 - Cael staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddelio â digwyddiadau sy'n ymwneud â chyffuriau

- Arddangos gwybodaeth priodol o ran ymwybyddiaeth o ddiogelwch cyffuriau i gwsmeriaid
- Darparu cyfarpar cymorth cyntaf ymhob lleoliad, ac ystafell cymorth cyntaf mewn lleoliadau mwy. Dylid rhoi ystyriaeth i ddarparu diffibriliwr mewn lleoliadau mwy
- Cyflogi staff sydd wedi'u hyfforddi i gynorthwyo gyda digwyddiadau meddygol
- Gweithredu polisi gwahardd priodol

Goruchwylwyr Drysau

- 3.5** Gall yr Awdurdod Trwyddedu, ar ôl derbyn sylwadau perthnasol, ystyried bod rhai eiddo angen goruchwyliaeth er mwyn hyrwyddo gostyngiad mewn trosedd ac anhrefn, ac i gyfrannu'n gyffredinol at weithrediad diogel yr eiddo. Mewn achosion o'r fath, gall yr Awdurdod Trwyddedu roi amod bod yn rhaid cyflogi goruchwylwyr drysau trwyddedig (Awdurdod Diwydiant Diogelwch) yn yr eiddo naill ai bob amser neu ar yr adegau hynny pan fo gweithgareddau trwyddedadwy penodol yn cael eu cynnal, ac mewn nifer a'r gymhareb a bennir gan yr Awdurdod Trwyddedu.
- 3.6** Nid yw stiwardiaid a phersonau eraill â'u rôl yw darparu cyngor ynghylch diogelwch a sicrhau diogelwch y rheiny sy'n ymweld â'r eiddo yn cael eu hystyried i fod yn cyflawni gweithgaredd diogelwch ac nid oes angen iddynt fod wedi'u cofrestru gyda'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch.

Lluniaeth Hwyr y Nos

- 3.7** Bydd angen trwydded ar eiddo sy'n gwerthu bwyd neu ddiod poeth rhwng 11:00pm a 05:00am. Yr amcan trwyddedu allweddol mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn yw atal trosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus. Lle mae darparu bwyd a diod poeth yn weithgaredd eilaidd mewn eiddo trwyddedig sydd ar agor ar gyfer gweithgareddau eraill, yna bydd amodau'r drwydded sylfaenol yn cynnwys y gweithgaredd yn ddigonol. Ni fydd y gofynion fel arfer yn cael eu cymhwyso i siopau cyfleus / siopau garej ac eiddo tebyg, oni bai bo trosedd ac anhrefn neu niwsans cyhoeddus yn dod yn broblem.

Cynlluniau Partneriaeth Diwydiant

- 3.8** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn annog cyfranogiad actif mewn cynlluniau megis Pubwatch, Off-Watch, Braf Bob Nos (os yw ar gael yn yr ardal) i gyfrannu at atal amcanion trwyddedu trosedd ac anhrefn.

Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus

- 3.9** Mae Sir y Fflint yn 'fan cyhoeddus dynodedig' o dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae hyn yn golygu os yw swyddog yr heddlu yn credu'n rhesymol bod person yn neu wedi bod yn yfed, neu'n bwriadu yfed, alcohol mewn man cyhoeddus dynodedig, mae ganddo/ ganddi'r pŵer i ofyn i'r person hwnnw beidio ag yfed

alcohol yn y lle hwnnw ac i ildio unrhyw alcohol neu gynwysyddion alcohol (gan gynnwys cynwysyddion wedi'u selio) yn eu meddiant.

- 3.10** Nid yw'n drosedd i yfed alcohol mewn man cyhoeddus dynodedig, ond mae methu â chydymffurfio â gofynion swyddog heb esgus rhesymol yn drosedd arestiol.

Hyrwyddiadau Anghyfrifol

- 3.11** Roedd gwahardd hyrwyddo alcohol yn anghyfrifol mewn eiddo didrwydded yn un o bump mesur a gyflwynwyd gan y Llywodraeth yn 2010. Y lleill oedd gwahardd tywallt alcohol yn uniongyrchol i gegau cwsmeriaid; gwneud dŵr tap ar gael am ddim; sicrhau bod polisïau gwirio oedran yn eu lle a chynnig dogni llai o gwrw, gwin a gwirodydd.
- 3.12** Yn Sir y Fflint bydd y penderfyniad ar yr hyn sydd a'r hyn na fydd yn hyrwyddo anghyfrifol yn cael ei wneud ar sail achosion unigol trwy gymryd yr holl amgylchiadau i ystyriaeth a chan gyfeirio at Awdurdodau Cyfrifol eraill pan fo angen.

Ardoll Hwyr y Nos

- 3.13** Darparodd newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol drwy Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 y potensial i'r Awdurdod fabwysiadu pŵer lleol ychwanegol i gynorthwyo gyda rheoli effaith Economi Hwyr y Nos ar y gymuned leol. Nid yw Cyngor Sir y Fflint ar hyn o bryd yn codi Ardoll Hwyr y Nos.

Gorchmynion Cyfyngu Ben Bore

- 3.14** Gwelir Gorchmynion Cyfyngu Ben Bore (EMRO) fel arf y gall yr Awdurdod o bosibl ei ddefnyddio i ail-addasu ffocws yr economi gyda'r nos i ffwrdd o yfed problemus, os byddai mesurau o'r fath yn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

Diogelwch y Cyhoedd

- 3.13** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn dymuno hyrwyddo safonau uchel o ddiogelwch y cyhoedd mewn cysylltiad ag adeiladau a gweithgareddau o fewn cwmpas Deddf Trwyddedu 2003.
- 3.14** Gellir ymgynghori ag Adran y Cyngor sy'n gorfodi iechyd a diogelwch mewn eiddo perthnasol fel Awdurdod Cyfrifol, a gall hefyd weithredu fel Unigolion ag Awdurdod at ddibenion gorfodi dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

- 3.15** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod na fydd dyletswyddau iechyd a diogelwch cyffredinol bob amser yn ymdrin yn ddigonol â materion penodol sy'n codi mewn eiddo mewn cysylltiad â rhai mathau o adloniant ac felly efallai y bydd angen rhoi amodau ynghlwm wrth drwydded/ tystysgrif.
- 3.16** Lle mae gweithgareddau yn cael eu trefnu gan wirfoddolwyr neu bwyllgor clwb neu gymdeithas, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ei bod yn arfer da bod yr un lefel o amddiffyniad iechyd a diogelwch yn cael ei ddarparu fel pe bai perthynas cyflogwr/gweithiwr yn bodoli, heb ystyried a oes dyletswyddau cyfreithiol llym yn berthnasol o dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.
- 3.17** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn annog deiliaid trwyddedau i ddarparu cyfleusterau sy'n galluogi derbyn pobl ag anableddau. Ni fydd unrhyw amodau yn cael eu rhoi y gellid eu defnyddio i gyfiawnhau gwaharddiad ar sail diogelwch y cyhoedd. Ni fydd unrhyw amod trwyddedu a osodir i wahardd anifeiliaid anwes am resymau diogelwch y cyhoedd yn berthnasol i gŵn tywys neu gymorth.

Diogelwch Tân

- 3.18** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn talu sylw dyledus i sylwadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sy'n un o'r Awdurdodau Cyfrifol yr ymgynghorir â nhw ynghylch trwydded/ ceisiadau, adnewyddu ac amrywio tystysgrif eiddo clwb.
- 3.19** Gall Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ddewis amodau priodol ac angenrheidiol mewn perthynas â materion diogelwch tân mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- 3.20** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, ar ôl derbyn sylwadau perthnasol yn cynnwys mewn tystysgrif eiddo/ tystysgrif eiddo clwb nifer o bobl a ganiateir lle bo angen er mwyn diogelwch y cyhoedd. Bydd y ffigur hwn yn cael ei gyrraedd mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- 3.21** Os bydd ymgeiswyr yn dymuno manteisio ar y darpariaethau arbennig yn Adran 177 o'r Ddeddf (dawnsio, cherddoriaeth wedi'i chwyddo a heb ei chwyddo mewn adeiladau gyda lle i ddim mwy na 200) efallai y gofynnir i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru roi cadarnhad o faint o le sydd yn yr adeilad.
- 3.22** Mae Cyngor Sir y Fflint yn un o lofnodwyr y protocol rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru.

Iechyd y Cyhoedd

- 3.23** Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am wneud cynrychioliadau a sylwadau ar geisiadau am drwyddedau. Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio gwybodaeth a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn llywio eu penderfyniadau. Nid yw iechyd y cyhoedd yn amcan trwyddedu eto, ond mae'r awdurdod trwyddedu yn credu bod gan iechyd y cyhoedd lawer i'w ychwanegu at drwyddedu mewn

perthynas ag anghenion iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol y poblogaethau lleol. Mae gan gyrff iechyd megis Iechyd y Cyhoedd fynediad unigryw at ddata nad yw ar gael i awdurdodau cyfrifol eraill a all lywio penderfyniadau trwyddedu. Mae Iechyd y Cyhoedd yn ddefnyddiol o ran darparu tystiolaeth o niwed i iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol yn arbennig mewn perthynas â pholisïau effaith gronnu.

Atal Niwsans Cyhoeddus

- 3.23** Wrth ystyried niwsans cyhoeddus, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried: -
- ▶ Sŵn o eiddo - gan gynnwys sŵn a achosir gan gwsmeriaid yn ysmegu y tu allan
 - ▶ Gwastraff
 - ▶ Sbwriel - gan gynnwys sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmegu
 - ▶ Parcio Ceir
 - ▶ Llygredd golau
 - ▶ Arogleuon annifyr
- Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymryd ystyr eang cyfraith gwlad o niwsans cyhoeddus wrth wneud ei ddyfarniadau ar geisiadau ac adolygiadau o drwyddedau / tystysgrifau eiddo.
- 3.24** Wrth ystyried effaith bosibl eiddo trwyddedig ar yr ardal o'i amgylch bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymryd i ystyriaeth y math o weithgaredd adloniant, yr oriau gweithredu arfaethedig, faint o le sydd yn yr eiddo a chymeriad yr ardal a pha mor agos ydyw at drigolion lleol.
- 3.25** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu ddefnyddio'r gronfa gydnabyddedig o amodau trwyddedu i reoli sŵn o eiddo presennol ac i gynghori datblygwyr ar y mesurau gwanhau sŵn gofynnol ar gyfer adeiladau newydd. Gall amodau llymach o ran rheoli sŵn gael eu gosod mewn ardaloedd lle mae'r eiddo'n agos at eiddo preswyl.
- 3.26** Bydd Adain Rheoli Llygredd Is-adran Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor yn gweithredu fel Awdurdod Cyfrifol ac ymgynghorir â nhw o ran atal niwsans cyhoeddus ac efallai y cyfeir at y 'Good Practice Guide on the Control of Noise from Pubs and Clubs' yr Institute of Acoustics (rhifyn cyfredol). Gellir cyfeirio hefyd at adroddiad Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) o'r enw "Goblygiadau Aflonyddwch Sŵn yn Deillio o Ryddfrydoli Cyfreithiau Trwyddedu".
- 3.27** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cydbwysu'r posibilrwydd o aflonyddu ar gymunedau gyda'r angen i annog a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr.
- 3.28** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y pwerau sydd gan yr Heddlu i gyhoeddi Gorchymyn Cau ar eiddo trwyddedig unigol sy'n achosi niwsans o ganlyniad i sŵn, a byddem yn annog yr Heddlu i ddefnyddio pwerau o'r fath lle bynnag y bo'n briodol a rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu mewn achos o gamau o'r fath.

- 3.29** Mae'r pwerau uchod ar gael i Swyddogion Rheoli Llygredd gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. Bydd pwerau o'r fath yn cael eu defnyddio hefyd pan ystyrir bod eu hangen ac yn unol â'r ddeddfwriaeth.
- 3.30** Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gorfodi amodau ar eiddo trwyddedig na all deiliad y drwydded eu rheoli'n uniongyrchol, nac ar faterion nad ydynt yn gysylltiedig â chyffiniau'r eiddo.
- 3.31** Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau neu adolygiadau o drwyddedau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymryd safbwynt synnwyr cyffredin ar p'un a yw'r unigolyn neu fusnes sy'n gwneud sylwadau wedi ei leoli "yng nghyffiniau" yr eiddo dan sylw ac felly yn debygol o gael ei effeithio'n uniongyrchol gan anhrefn ac aflonyddwch.
- 3.32** Mater o gyfrifoldeb personol yw sŵn ac aflonyddwch sy'n deillio o ymddygiad mynychwyr sydd wedi gadael yr eiddo ac maent yn destun gorfodaeth yr Heddlu o'r gyfraith arferol sy'n ymwneud ag anhrefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol.
- 3.33** Er gwaethaf y paragraff blaenorol, barn yr Awdurdod Trwyddedu yw bod cyfrifoldeb ar Oruchwyliwr yr Eiddo Dynodedig am sicrhau nad yw pobl sydd tu allan i'w heiddo at ddibenion ysmegu yn creu niwsans cyhoeddus.

Diogelu Plant rhag Niwed

- 3.34** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod yr amrywiaeth mawr o eiddo y gellir gofyn am drwyddedau ar eu cyfer. Bydd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, theatrau, sinemâu, bwytai, tafarndai, clybiau nos, caffis, siopau cludfwyd, neuaddau cymuned ac ysgolion. Ni fydd mynediad gan blant i bob math o eiddo yn cael ei gyfyngu mewn unrhyw ffordd ar wahân i fel y nodir yn Neddf Trwyddedu 2003, oni ystyrir ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn eu diogelu rhag niwed mewn rhyw ffordd (hy, niwed corfforol, moesol neu seicolegol).
- 3.35** Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau eiddo neu dystysgrifau eiddo clwb, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried hanes eiddo penodol a natur y gweithgareddau y bwriedir eu darparu wrth ystyried unrhyw opsiynau priodol i atal niwed i blant, er enghraifft:
- ▶ Lle mae aelodau o'r staff presennol wedi eu canfod yn euogfarnau o weini alcohol i blant dan oed neu gydag enw drwg am yfed dan oed
 - ▶ Yn gysylltiedig â chymryd neu ddelio cyffuriau
 - ▶ Lle mae elfen gref o gamblo yn yr eiddo (nid presenoldeb syml nifer fechan o beiriannau gamblo am wobrau ariannol)
 - ▶ Lle mae adloniant neu wasanaethau i oedolion neu o natur rywiol yn cael eu darparu'n gyffredinol, e.e. bar staff heb dop, strip-bryfocio, glin-ddawnsio, bwrdd-ddawnsio neu polyn-ddawnsio, iaith neu ddelweddu cryf a sarhaus. (Gweler paragraff 20).
 - ▶ Lle mae cyflenwi alcohol i'w yfed ar yr eiddo yr unig neu brif bwrpas y gwasanaethau a ddarperir.

Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn ei gwneud yn drosedd i ganiatáu plant o dan 16 oed nad ydynt yng nghwmni oedolyn i fod yn bresennol mewn eiddo a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed yn yr eiddo hwnnw.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi y term "yn unig neu'n bennaf" ei ystyr cyffredin a naturiol yng nghyd-destun yr amgylchiadau penodol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried rhinweddau unigol pob cais.

3.36 Lle mae'r amgylchiadau a ddisgrifir yn 6.2 yn bodoli yna gellir rhoi amodau ynghlwm wrth y drwydded i amddiffyn plant rhag niwed. Gall amodau o'r fath gynnwys:

- ▶ Yr angen i ddangos cardiau profi oedran
- ▶ Cyfyngu ar yr oriau pryd y gall plant fod yn bresennol
- ▶ Cyfyngiadau oedran (dan 18 oed)
- ▶ Cyfyngiadau neu waharddiadau pan fydd gweithgareddau penodol yn digwydd
- ▶ Cyfyngiadau neu waharddiadau mewn perthynas â rhannau o eiddo
- ▶ Gwaharddiad llawn ar bobl o dan 18 oed o'r eiddo pan fo unrhyw weithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cynnal
- ▶ Gofynion ar gyfer goruchwyliaeth gan oedolion

Fel egwyddor gyffredinol, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi amodau ar drwyddedau eiddo neu dystysgrifau sydd angen mynediad i blant. Bydd hyn yn cael ei adael i ddisgresiwn gweithredwr y lleoliad.

3.37 Lle caniateir arddangos ffilmiau bydd yr awdurdod yn disgwyl y cydymffurfir â chyfyngiadau oedran yn unol ag argymhellion Bwrdd Categori Ffilmiau Prydeinig. Mae hyn yn amod gorfodol yn Neddf Trwyddedu 2003 ar gyfer eiddo sy'n gadael plant i mewn i weld unrhyw ffilm.

3.38 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y gofyniad yn y Ddeddf ar gyfer plant o dan 16 oed i fod yng nghwmni oedolyn. Mewn amgylchiadau lle mae nifer fawr o blant yn debygol o fod yn bresennol heb oedolyn mewn eiddo trwyddedig penodol, er enghraifft mewn sioe i blant neu bantomeim, yna er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd a diogelu plant rhag niwed, bydd y gymhareb oedolion sydd ei hangen i oruchwyllo plant yn unol ag Atodiad H, Canllawiau Adran 182 i Ddeddf Trwyddedu 2003 neu gymhareb arall y gall awdurdod cyfrifol ei argymhell.

3.39 Ni chaniateir arddangos ffilmiau mewn eiddo trwyddedig sy'n debygol o:

- ▶ Arwain at anhrefn
- ▶ Ennyn casineb neu ysgogi trais tuag at unrhyw ran o'r cyhoedd ar sail lliw, hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol, iaith, anabled, credoau crefyddol, tueddfryd rhywiol neu ryw.

3.40 Gan gyfeirio'n gyffredinol at amddiffyn plant rhag niwed, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Plant o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol fel yr Awdurdod Cyfrifol cymwys i ymateb ar faterion yn ymwneud â phlant a niwed.

- 3.41** Disgwylir gan yr Awdurdod Trwyddedu y bydd atodlenni gweithredu a gyflwynir fel rhan o geisiadau yn cynnwys digon o wybodaeth fanwl fel y gellir penderfynu ar y farn briodol o ran pa fesurau a allai fod yn angenrheidiol i amddiffyn plant rhag niwed.
- 3.42** Gweler paragraff 15 isod i gael gwybodaeth fanylach am reoli Lleoliadau Adloniant Rhyw

Iechyd y Cyhoedd

- 3.43** Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am wneud sylwadau ac arsylwadau ar geisiadau am drwydded. ~~Bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio gwybodaeth a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd er mwyn nodi eu proses o dded i benderfyniad. Nid yw Iechyd y Cyhoedd yn amcan trwyddedu ar hyn o bryd, ond mae'r awdurdod trwyddedu yn credu bod gan Iechyd y Cyhoedd lawer i'w ychwanegu i drwyddedu, mewn perthynas ag anghenion Iechyd yn ymwneud ag alcohol y boblogaeth leol. Mae gan y cyrff Iechyd megis Iechyd y Cyhoedd fynediad unigryw i ddata nad yw ar gael i awdurdodau cyfrifol eraill, a all nodi penderfyniadau trwyddedu. Mae Iechyd y Cyhoedd yn ddefnyddiol wrth ddarparu tystiolaeth o niwed i Iechyd yn sgil alcohol, yn arbennig mewn perthynas â pholisïau effaith gronol.~~

Mae data Iechyd cyhoeddus yn dangos bod -

- 21% o oedolion yn Sir y Fflint yn yfed mwy na'r uchafswm cyfartalog wythnosol o alcohol sy'n cael ei argymhell (Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2019).
- Yn 2019-2020, cafodd 353.4 o drigolion Sir y Fflint (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020) eu derbyn i'r ysbyty gyda phroblemau o ganlyniad uniongyrchol i alcohol ac roedd 1857.3 wedi'u derbyn i'r ysbyty gyda phroblemau a allai fod yn gysylltiedig ag alcohol (cyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni yn ôl oedran fesul 100,000 o bobl).

4.0 | Effaith gronnus

- 4.1** Mae hyn yn ymwneud â'r effaith bosibl ar hyrwyddo amcanion trwyddedu nifer sylweddol o eiddo trwyddedig mewn un ardal.
- 4.2** Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ar adeg cyhoeddi'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu hwn bod ardaloedd yn Sir y Fflint lle mae effaith gronnus yn broblem sylweddol.
- 4.3** Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn dymuno aros yn effro i'r posibilrwydd o effaith o'r fath yn digwydd.
- 4.4** Drwy gysylltu gyda thrigolion lleol ac Awdurdodau Cyfrifol gall yr Awdurdod Trwyddedu, felly, ddod i'r casgliad yn y dyfodol, bod rhan benodol o'i ardal yn cael ei ystyried i fod yn achosi effaith gronnus ar un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.
- 4.5** Felly, bydd polisi arbennig o wrthod trwyddedau newydd yn cael ei fabwysiadu pan fo sail dystiolaethol ar ei gyfer oddi wrth Awdurdodau Cyfrifol, partïon â diddordeb neu gyrrff eraill megis Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn.
- 4.6** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn dilyn y camau a nodir yng Nghyfarwyddyd diwygiedig y Swyddfa Gartref wrth fabwysiadu polisi arbennig.
- 4.7** Bydd hyn yn creu tybiaeth amodol bod ceisiadau am drwyddedau eiddo newydd, tystysgrifau eiddo clwb neu amrywiadau deunydd fel arfer yn cael eu gwrthod, oni bai y gellir dangos na fydd gweithrediad yr eiddo dan sylw yn ychwanegu at yr effaith gronnus a brofir eisoes.
- 4.8** Ni fydd y polisi arbennig, fodd bynnag, yn absoliwt. Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant a gellir caniatáu trwyddedau neu dystysgrifau sy'n annhebygol o ychwanegu at yr effaith gronnus ar yr amcanion trwyddedu. Bydd gwahanol arddulliau a nodweddion eiddo yn cael eu hystyried.
- 4.9** Ni fydd polisiau arbennig yn cael eu defnyddio fel sail dros ddiddymu trwydded neu dystysgrif bresennol, nac dros wrthod ceisiadau i amrywio trwydded bresennol ac eithrio pan fydd yr addasiadau hynny yn uniongyrchol berthnasol i'r polisi ac yn gwbl angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- 4.10** Ni fydd polisi arbennig yn cael ei ddefnyddio i osod amseroedd cau sefydlog mewn ardal benodol, neu i osod cwotâu - yn seiliedig ar naill ai nifer yr eiddo neu faint o le sydd yn yr eiddo hynny.

- 4.11** Bydd mecanweithiau eraill hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer rheoli effaith gronnus, er enghraifft:
- ▶ Darparu TCC
 - ▶ gwaharddiadau ar yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus dynodedig
 - ▶ Gorfodaeth yr heddlu o'r gyfraith gyffredinol ynghylch anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
 - ▶ Gorfodaeth y ddeddfwriaeth ar werthu alcohol i bobl sy'n feddw
 - ▶ cymryd alcohol oddi ar oedolion a phlant mewn ardaloedd dynodedig
 - ▶ defnydd o bwerau cau dros dro yr heddlu
 - ▶ Gallu i'r Heddlu, Awdurdodau Cyfrifol, trigolion a busnesau i geisio adolygiad o drwyddedau eiddo neu dystysgrifau eiddo clwb.

5.0 | Cynllunio a Rheoli Adeiladu

- 5.1** Bydd y cyfundrefnau Cynllunio, Rheoli Adeiladu a Thrwyddedu yn Sir y Fflint wedi cael eu gwahanu yn briodol i osgoi dyblygu ac aneffeithlonrwydd.
- 5.2** Fel arfer, dylai ceisiadau am drwyddedau eiddo ar gyfer adeiladau masnachol parhaol ddod oddi wrth fusnesau sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer yr eiddo dan sylw. Fodd bynnag, gellir gwneud ceisiadau am drwyddedau cyn i unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol gael ei geisio neu ei roi gan yr awdurdod cynllunio.
- 5.3** Mae'r cyfundrefnau cynllunio a thrwyddedu yn cynnwys ystyried gwahanol faterion (er yn gysylltiedig). Er enghraifft, mae trwyddedu yn ystyried niwsans cyhoeddus tra bo cynllunio yn ystyried materion amwynder ehangach. Felly, ni ddylai ceisiadau am drwydded o'r fath fod yn ail-gyflwyniad o gais cynllunio ac na ddylid o reidrwydd eu dylanwadu gan benderfyniadau a wnaed gan bwyllgor cynllunio awdurdod lleol neu gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar apêl, ac i'r gwrthwyneb.
- 5.4** Ni fyddai caniatáu unrhyw amrywiad i drwydded sy'n cynnwys newid materol i adeilad gan yr awdurdod trwyddedu yn rhyddhau'r ymgeisydd o'r angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio (Caniatâd Adeilad Rhestredig pan fo hynny'n berthnasol), neu gymeradwyaeth Rheoli Adeiladu.
- 5.5** Mae amgylchiadau hefyd, fel amod o ganiatâd cynllunio, bod amser cau wedi cael ei bennu ar gyfer y defnydd o'r eiddo at ddibenion masnachol. Lle mae'r oriau hyn yn wahanol i'r oriau trwyddedig, rhaid i'r ymgeisydd gadw at yr amser cau cynharach. Byddai eiddo sy'n gweithredu yn groes i'w caniatâd cynllunio yn agored i gamau gorfodi o dan gyfraith cynllunio.
- 5.6** Yr Awdurdod Cynllunio yw'r awdurdod cyfrifol o dan y Ddeddf Trwyddedu ac o'r herwydd gall gyflwyno sylwadau ar geisiadau am drwydded cyn belled ag y bônt yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu.
- 5.7** Mae cyfeiriad yn cael ei wneud i'r egwyddor Asiant Newid, sy'n rhoi'r cyfrifoldeb o liniaru effeithiau gweithgareddau sy'n cynhyrchu sŵn neu ddefnyddio datblygiad arfaethedig newydd sy'n sensitif i sŵn.

6.0 | Cais am Drwydded/ Tystysgrif Tro Cyntaf ac Amrywio Telerau ac Amodau presennol

Wrth ystyried yr holl geisiadau newydd neu amrywio amod, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn eu hasesu yng ngoleuni'r amcanion trwyddedu, yr atodlen weithredu ac yn benodol bydd yn ystyried y canlynol, i'r graddau eu bod o dan reolaeth yr ymgeisydd:

- 6.1** Y camau mae'r ymgeisydd wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd er mwyn atal sŵn a dirgryniad rhag dianc o'r eiddo, gan gynnwys cerddoriaeth, sŵn o offer awyru, a lleisiau dynol. Gall mesurau o'r fath gynnwys gosod deunydd gwrthsain, cyflyru aer, cynteddau acwstig a dyfeisiadau cyfyngu sŵn.
- 6.2** Y camau mae'r ymgeisydd wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i atal aflonyddwch gan gwsmeriaid sy'n cyrraedd neu'n gadael yr eiddo.
- 6.3** Y camau mae'r ymgeisydd wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i osgoi ciwio, neu, os yw ciwio yn anochel, i symud ciwiau oddi wrth eiddo cyfagos, neu fel arall i reoli'r ciw i atal aflonyddwch neu rwystr.
- 6.4** Y camau mae'r ymgeisydd wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod cwsmeriaid yn gadael yr adeilad yn ddistaw.
- 6.5** Y trefniadau a wnaed neu a fwriedir eu gwneud ar gyfer parcio gan ddefnyddwyr, ac effaith parcio ar drigolion lleol.
- 6.6** A oes darpariaeth ddigonol ar gyfer cludiant cyhoeddus i gwsmeriaid.
- 6.7** P'un a yw tacsis a cherbydau hurio preifat sy'n gwasanaethu'r eiddo yn debygol o aflonyddu ar drigolion lleol.
- 6.8** P'un a yw llwybrau i ac o'r eiddo ar droed neu mewn car neu gerbyd gwasanaeth / cerbydau danfon yn mynd heibio eiddo preswyl.
- 6.9** P'un a yw mesurau eraill i ostwng niwsans wedi eu hystyried, fel defnyddio TCC neu gyflogi Goruchwylwyr Drysau Trwyddedig.
- 6.10** Roedd y mesurau a gynigir i atal defnyddio neu gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau chwilio.
- 6.11** Y tebygolrwydd o unrhyw drais, anrhefn cyhoeddus neu broblem blismona yn codi os bydd trwydded yn cael ei roi.
- 6.12** Os yw'r ymgeisydd wedi dal trwydded o fewn y Sir yn flaenorol, manylion unrhyw gamau gorfodaeth yn deillio o'r eiddo.

- 6.13** Os byddai'r eiddo yn arwain at storio mwy o wastraff neu broblemau gwaredu, neu ysbwriel ychwanegol yng nghyffiniau'r eiddo.
- 6.14** Sylwadau gan yr Awdurdodau Cyfrifol.
- 6.15** Sylwadau gan bartïon â diddordeb.
- 6.16** Mewn perthynas â cheisiadau am amrywio trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried hanes blaenorol yr eiddo a'i reolaeth. Bydd barn yr holl Awdurdodau Cyfrifol yn cael eu hystyried.

Mân Amrywiadau

- 6.17 Gall deiliad trwydded eiddo/ tystysgrif eiddo clwb wneud cais o dan y drefn 'mân amrywiad' ar gyfer amrywiadau bach nad fyddai'n effeithio er gwaeth ar yr amcanion trwyddedu. Nid oes unrhyw hawl i wrandawriad, fodd bynnag, os bydd y cais yn cael ei wrthod, gellir gwneud cais llawn.
- 6.18 Mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried effaith y mân amrywiad, a phenderfynu a ddylid ymgynghori ag unrhyw un o'r Awdurdodau Cyfrifol.

Ffi Blynyddol

- 6.19 Er bod trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb yn cael eu caniatáu am gyfnod amhenodol, mae'n ofynnol i ddeiliaid trwydded dalu ffi flynyddol i'r Awdurdod Trwyddedu.

Yn ystod 2012, newidiodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Deddf Trwyddedu 2003 i roi gofyniad ar yr Awdurdodau Trwyddedu i atal trwyddedau eiddo lle nad yw'r ffioedd blynyddol wedi cael eu talu.

7.0 | Digwyddiadau Dros Dro

- 7.1** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi cyhoeddusrwydd eglur a dealladwy ynghylch ei ymagwedd tuag at weithgareddau dros dro a ganiateir. Yn gryno, mae'r rhain yn ddigwyddiadau sy'n para am lai na 168 awr a gyda llai na 500 o bobl yn bresennol.
- 7.2** Gall yr Heddlu a lechyd yr Amgylchedd wrthwynebu Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro o fewn tri diwrnod o'i gyflwyno
- 7.3** Bydd llawer o ddigwyddiadau lleol yn cael eu trefnu gan wirfoddolwyr neu bwyllgor clwb neu gymdeithas. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ei bod yn arfer da bod yr un lefel o amddiffyniad iechyd a diogelwch yn cael ei ddarparu fel pe bai perthynas cyflogwr / gweithiwr yn bodoli, heb ystyried a oes dyletswyddau cyfreithiol dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.
- 7.4** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn annog trefnwyr digwyddiadau dros dro i ofyn am gyngor / gwybodaeth gan eu Grwpiau Cynghori Diogelwch Lleol.
- 7.5** Er bod yr Awdurdod Trwyddedu yn gallu atodi unrhyw amodau neu gyfyngiadau mewn perthynas â Digwyddiadau Dros Dro mae'n disgwyl i drefnwyr roi parch priodol i drigolion lleol a'r rhai sy'n mynychu digwyddiadau, er enghraifft, ym meysydd:
- ▶ Iechyd a Diogelwch
 - ▶ Llygredd sŵn
 - ▶ defnydd o strwythurau dros dro
 - ▶ cau ffyrdd
 - ▶ defnydd o dân gwyllt
 - ▶ rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol
 - ▶ gwerthu alcohol

TENs Safonol

- 7.6** Rhaid rhoi o leiaf deg diwrnod gwaith o rybudd i'r Awdurdod Trwyddedu o ddigwyddiadau dros dro, fodd bynnag, gorau oll fyddai cael y rhybudd cynharaf posibl. Mae "deg diwrnod gwaith o rybudd" yn golygu deg diwrnod gwaith heb gynnwys y dyddiad daw yr hysbysiad i law, a'r diwrnod mae'r digwyddiad yn dechrau. Nid yw 'diwrnod gwaith' yn cynnwys dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu Wyliau Banc.
- 7.7** Lle mae'r Heddlu neu lechyd yr Amgylchedd yn gwrthwynebu'r TEN, gall yr ymgeisydd gytuno i addasu'r TEN. Os na cheir cytundeb, bydd gwrandawriad o'r Is-

bwyllgor Trwyddedu yn cael ei drefnu. Gall y panel benderfynu gosod amodau neu gyhoeddi Gwrth-Hysbysiad i atal y digwyddiad rhag mynd yn ei flaen.

TENs hwyr

- 7.8** Gellir rhoi TEN hwyr hyd at bum diwrnod gwaith ond dim cynharach na naw diwrnod gwaith cyn y digwyddiad gael ei gynnal.
- 7.9** Os yw'r Heddlu neu Iechyd yr Amgylchedd yn gwneud cais am TEN Hwyr, nid oes darpariaeth ar gyfer gwrandawriad ac mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflwyno Gwrth-Hysbysiad i atal y digwyddiad rhag mynd yn ei flaen.

8.0 | Trwyddedau Personol

- 8.1** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn dilyn canllaw y Swyddfa Gartref yn fanwl mewn perthynas â cheisiadau am a rhoi Trwyddedau Personol.
- 8.2** Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu dogfen ddatgeliad o gofnod troseddol sylfaenol diweddar. Mae'n rhaid i ymgeiswyr o awdurdodaethau tramor wneud datganiad clir ynghylch a ydynt wedi eu cael yn euog y tu allan i Gymru a Lloegr o drosedd berthnasol neu drosedd gyfatebol.
- 8.3** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cysylltu'n agos â'r Heddlu pan canfyddir bod gan ymgeisydd euogfarn heb ddarfod am drosedd berthnasol a ddiffinnir yn y Ddeddf.
- 8.4** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn atodi manylion y troseddau perthnasol i'r ffurflenni cais er gwybodaeth i'r ymgeiswyr.

9.0 | Tystysgrif Adeilad Clwb

- 9.1** Mae Adran 62 y Ddeddf Trwyddedu yn nodi'r amodau cyffredinol y mae'n rhaid i sefydliad gydag o leiaf 25 o aelodau sydd wedi dod ynghyd at ddibenion cymdeithasol, chwaraeon neu wleidyddol arbennig eu diwallu i fod yn glwb cymwys. Dim ond clybiau cymwys all wneud cais am Dystysgrif Eiddo Clwb.
- 9.2** Mae Tystysgrif Eiddo Clwb yn darparu awdurdodiad ar gyfer cyflenwi alcohol a darparu adloniant rheoledig er budd aelodau a'u gwesteion yn unig. Os yw eiddo yn dymuno darparu gweithgareddau trwyddedig ar gyfer pobl nad ydynt yn aelodau neu'r cyhoedd yn gyffredinol, bydd angen iddynt wneud hynny drwy gyfrwng Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro neu Drwydded Eiddo. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn trafod yn agos â'r Heddlu os canfyddir bod gan ymgeisydd euogfarn heb ddarfod am drosedd berthnasol a ddiffinnir yn y Ddeddf.
- 9.3** Mae rhoi Tystysgrif Eiddo Clwb yn golygu bod y clwb cymwys â rhai buddion:
- ▶ Cyflenwi alcohol i aelodau heb fod angen Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig
 - ▶ Darparu Lluniaeth Hwyr y Nos i aelodau heb fod angen awdurdodiad ychwanegol
 - ▶ Hawliau cyfyngedig i gael mynediad i'r heddlu a phobl awdurdodedig gan bydd yr adeilad yn gyffredinol yn cael ei ystyried yn breifat ac nid ar agor i'r cyhoedd
 - ▶ Eithrio rhag pwerau'r heddlu i gau yn syth ar sail anhrefn a sŵn oherwydd eu bod yn gweithredu o dan eu codau a rheolau disgyblaeth
 - ▶ Eithrio rhag gorchmynion llys ynadon i gau pob eiddo trwyddedig mewn ardal pan fo anhrefn yn digwydd neu fe'i disgwylir

10.0 | Atodlen Weithredu

- 10.1** Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n credu dylai'r holl bartion – awdurdodau trwyddedu, deiliaid trwyddedau/ tystysgrifau, personau awdurdodedig, yr heddlu ac awdurdodau cyfrifol – fod yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sicrhau bod amcanion trwyddedu yn cael eu hyrwyddo ar y cyd.
- 10.2** Er mwyn lleihau anghydfodau a'r angen am wrandawiadau, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn credu y byddai'n gall i ymgeiswyr ymgynghori â'r holl awdurdodau cyfrifol pan fo atodlenni gweithredu yn cael eu paratoi.
- 10.3** Disgwylir i Atodlenni Gweithredu gynnwys gwybodaeth ddigonol i ganiatáu unrhyw Awdurdod Cyfrifol neu barti â diddordeb i asesu a yw'r camau i'w cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn foddhaol.
- 10.4** Dylai disgrifiadau o weithgareddau a gynigir yn yr eiddo gynnwys y rheiny sydd hefyd yn cwmpo tu allan i'r diffiniad o adloniant rheoledig.
- 10.5** Dylid disgrifio'r math o ddawnsio, yn ogystal â'r math o gerddoriaeth a ddarperir. Mae'r math yma o wybodaeth yn hanfodol fel bod yr Awdurdod Cyfrifol a'r bartion â diddordeb yn gallu ffurfio barn iawn ynglŷn â pha fesurau allai fod eu hangen i sicrhau bod yr amcanion trwyddedu yn cael eu diwallu.
- 10.6** Bydd y mesurau a gynigir yn yr Atodlenni Gweithredu i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn dod yn amodau trwydded sydd ynghlwm i drwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb.

11.0 | Oriau Gweithredu

- 11.1** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y gall amseroedd cau sefydlog ac artiffisial o gynnar mewn rhai ardaloedd arwain at anhrefn ac aflonyddwch ar y strydoedd pan fydd nifer fawr o bobl yn tueddu i adael adeiladau trwyddedig ar yr un pryd.
- 11.2** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio, drwy ddarpariaethau'r amcanion trwyddedu, i gyflawni gwasgariad arafach o bobl yn gadael eiddo trwyddedig trwy oriau agor hirach. Ni fydd y Cyngor yn pennu amseroedd cau ymlaen llaw ar gyfer ardaloedd penodol, na cheisio creu 'amseroedd cau cyfnodol'.
- 11.3** Bydd siopau, storfeydd ac archfarchnadoedd yn cael eu caniatáu i werthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo ar yr adegau pan fyddant fel arfer ar agor yng nghwrs eu busnes. Gall oriau gael eu cyfyngu pan dderbynnir sylwadau oddi wrth yr Heddlu mewn perthynas â siopau unigol y gwyddys eu bod yn ganolbwynt anhrefn ac aflonyddwch.
- 11.4** Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau / tystysgrifau eiddo, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymryd i ystyriaeth geisiadau ymgeiswyr am amser cau yng ngoleuni:
- ▶ Yr effaith bosibl ar amwynder yr ardal
 - ▶ Cymeriad neu swyddogaeth ardal benodol
 - ▶ Natur y gweithgareddau y bwriedir eu darparu yn yr eiddo
- 11.5** Fel arfer, bydd yr oriau cau yn cael eu cymeradwyo os gall yr ymgeisydd ddangos na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar yr uchod. Gall yr Awdurdod Trwyddedu osod amser cau cynharach os yw'n ystyried hyn yn briodol.
- 11.6** Lle mae'r adeiladau yn agos i ardal breswyl gellir gosod amodau mwy caeth efallai o ran rheoli sŵn, ond ni ddylai hyn gyfyngu ar yr oriau agor cyn belled y cydymffurfir â'r amodau gofynnol.
- 11.7** Nid yw'r adegau pan fydd eiddo ar agor i'r cyhoedd o reidrwydd yn union yr un fath â'r oriau y gall gweithgareddau trwyddedadwy gael eu cynnal. Bydd yn bosibl i eiddo ganiatáu yfed alcohol a brynwyd yn flaenorol y tu allan i'r oriau a awdurdodwyd ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol.
- 11.8** Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gorfodi i ddeilydd trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb i aros ar agor am y cyfnod cyfan a ganiateir gan ei drwydded neu dystysgrif.

12.0 | Gorfodaeth, Adolygiadau a Phwerau

- 12.1** Mae protocol ar weithredu rôl orfodaeth ar y cyd rhwng yr Awdurdod Trwyddedu a Heddlu Gogledd Cymru wedi cael ei sefydlu.
- 12.2** Yn gyffredinol, bydd camau ddim ond yn cael eu cymryd yn unol ag egwyddorion gorfodaeth a gytunwyd ac yn unol â Pholisi Gorfodaeth yr Is-adran Gwarchod y Cyhoedd sy'n ddyddiedig Gorffennaf 2009 ac sydd ar gael yn www.flintshire.gov.uk
- 12.3** Mae'r gallu i fynnu adolygiadau o drwyddedau eiddo neu dystysgrifau eiddo clwb yn caniatáu i awdurdodau trwyddedu i ddefnyddio biwrocratiaeth 'cyffyrddiad ysgafn' o ran rhoi ac amrywio trwyddedau eiddo / tystysgrifau eiddo clwb.
- 12.4** Gall yr Awdurdodau Cyfrifol gychwyn adolygiad, e.e. Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint neu gan breswlydd neu fusnes yng nghyffiniau'r eiddo.
- 12.5** Ym mhob achos bydd angen cyflwyno digon o dystiolaeth i'r Awdurdod Trwyddedu i gefnogi'r honiadau a wnaed.
- 12.6** Bydd disgwyl i Unigolion ag Awdurdod ac Awdurdodau Cyfrifol i roi rhybudd cynnar o'u pryderon i ddeiliaid trwydded / tystysgrif am broblemau a nodwyd yn yr eiddo dan sylw a'r angen i wella. Mae methu ymateb i rybuddion o'r fath yn debygol o arwain at benderfyniad i ofyn am adolygiad.
- 12.7** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cyfeirio at ganllawiau'r Swyddfa Gartref wrth ystyried a yw cwynion gan bartïon â diddordeb yn amherthnasol, blinderus, gwamal neu ailadroddus.
- 12.8** Mae diwygiadau i'r Ddeddf Trwyddedu gan y Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2010 yn rhoi'r pŵer i Gynghorau atal trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb lle nad yw'r ffi flynyddol ofynnol wedi ei thalu.
- 12.9** Pan na fydd ffi flynyddol wedi cael ei thalu erbyn y dyddiad priodol, fel arfer pen-blwydd y dyddiad rhoddwyd y drwydded gyntaf, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi gwybod i ddeiliad y drwydded neu'r dystysgrif yn ysgrifenedig:
- ▶ Bydd y drwydded neu'r dystysgrif yn cael ei hatal mewn 7 diwrnod o ddyddiad y rhybudd
 - ▶ Ni fydd yr ataliad yn dod i rym pe bai'r ffi yn cael ei thalu cyn y dyddiad atal

13.0 | Y Broses Drwyddedu

Amodau'r Drwydded

- 13.1** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn osgoi gosod amodau anghymesur o feichus a thrwm ar drwyddedau eiddo / tystysgrifau eiddo clwb.
- 13.2** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried cronfeydd o amodau enghreifftiol a bydd yn gosod amodau fel sy'n briodol o ystyried amgylchiadau pob achos unigol. Bydd yr amodau enghreifftiol yn delio â materion sy'n ymwneud â -
- ▶ Trosedd ac Anhrefn
 - ▶ Diogelwch y Cyhoedd
 - ▶ Niwsans Cyhoeddus
 - ▶ Diogelu Plant rhag Niwed
- 13.3** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ystyried dogfennau cyfeirio a restrir yn yr Atodiadau i Ganllaw y Swyddfa Gartref, er na fyddant yn cael eu defnyddio fel amodau safonol.
- 13.4** Wrth osod amodau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ymwybodol o'r angen i osgoi mesurau a allai rwystro cerddoriaeth fyw, dawnsio neu theatr trwy osod costau anuniongyrchol o natur sylweddol.
- 13.5** Wrth benderfynu ar geisiadau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref. Yn benodol, rhoddir ystyriaeth i'r angen i annog a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr er lles diwylliannol ehangach y gymuned yn ei chyfanrwydd. Os cyflwynir sylwadau ynghylch y posibilrwydd o anrhefn mewn cymdogaeth benodol, bydd ystyriaeth yr Awdurdod Trwyddedu wedi'i chydbwysu yn erbyn y manteision ehangach i'r gymuned.

Gweinyddu - Y Broses Ymgeisio

- 13.6** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn derbyn na ddylai ymyrryd yn y penderfyniad o bwy yw'r person mwyaf priodol i wneud cais am drwydded eiddo/ tystysgrif eiddo clwb, neu feddu ar un. Bydd, fodd bynnag, ond yn derbyn ceisiadau a wneir yn y ffurf a ragnodir.
- 13.7** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr unigol i fynd i'r afael â'r amcanion trwyddedu yn eu Hatodlen Weithredu gan roi sylw i'r math o eiddo, y gweithgareddau trwyddedadwy sydd i'w darparu, y trefnau gweithredol, natur y lleoliad ac anghenion y gymuned leol.
- 13.8** Bydd ymgeiswyr yn cael eu hannog i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw bolisiau cynllunio a chcludiant perthnasol, strategaethau twristiaeth a diwylliannol a

mentrau atal trais lleol a rhoi sylw i'r rhain os yn briodol wrth lunio eu hatodlen weithredu.

- 13.9** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y cyngor a gafwyd gan y Swyddfa Gartref na ddylid caniatáu i farn lleiafrifoedd lleisiol gymryd blaenoriaeth dros les cyffredinol y gymuned.
- 13.10** Efallai y bydd pwerau'r Awdurdod Trwyddedu o dan y Ddeddf yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Trwyddedu, neu Is-Bwyllgor, neu gan un neu fwy o swyddogion sy'n gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig. Bydd dirprwyo swyddogaethau yn unol ag argymhellion y Swyddfa Gartref.
- 13.11** Yng nghyd-destun ceisiadau, arolygiadau, gorfodaeth ac adolygiadau o drwyddedau/ tystysgrifau eiddo, mae'r grwpiau canlynol wedi'u nodi yn Sir y Fflint

Personau a Swyddogion Awdurdodedig (rolau arolygu a gorfodaeth):

- ▶ Heddlu Gogledd Cymru
- ▶ Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- ▶ Cyngor Sir y Fflint
 - ▶ Iechyd a Diogelwch
 - ▶ Rheoli Llygredd
 - ▶ Diogelwch Bwyd
 - ▶ Rheolaeth Amgylcheddol
 - ▶ Trwyddedu
- ▶ Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
 - ▶ yn unol â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Awdurdod Gorfodi) 1998

Awdurdodau Cyfrifol (i'w hysbysu o geisiadau a hawl i gyflwyno sylwadau): -

- ▶ Heddlu Gogledd Cymru
- ▶ Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- ▶ Cyngor Sir y Fflint - Is-adran Gwarchod y Cyhoedd
- ▶ Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (Ile bo'n berthnasol)
- ▶ Cyngor Sir y Fflint - Yr Is-adran Gynllunio
- ▶ Cyngor Sir y Fflint - Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
- ▶ Yr Awdurdod Trwyddedu
- ▶ Bwrdd Iechyd Lleol

- 13.12** Gall unrhyw berson gyflwyno sylwadau i'r Cyngor ynghylch ceisiadau am drwyddedau newydd, amrywiadau neu adolygiadau.

Gall sylwadau fod yn gadarnhaol neu'n negyddol, ond byddant ddim ond yn cael eu hystyried yn berthnasol gan y Cyngor os ydynt yn ymwneud yn glir â'r amcanion trwyddedu.

- 13.13** Lle mae eiddo yn cael eu hadeiladu neu eu hymestyn neu newid yn sylweddol yn strwythurol, bydd cais am Drwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb yn cael ei dderbyn cyn belled bod cynlluniau clir yn bodoli, bod atodlen weithredu yn cael ei chyflwyno ynghyd ag enw goruchwylydd penodedig yr eiddo. Os nad oes digon o fanylion ar gael, yna dylid gwneud cais am "Ddatganiad Dros Dro" yn lle hynny.
- 13.14** Mae Sir y Fflint yn gysylltiedig â system Gov.uk y Llywodraeth, sy'n golygu ein bod yn gallu derbyn ceisiadau (gan gynnwys taliad) yn electronig.

14.0 | Y Pwyllgor Trwyddedu

Dirprwyo Swyddogaethau a Argymhellir

Y Mater i ymdrin ag ef	Pwyllgor Llawn	Is-bwyllgor	Swyddogion
Cais am drwydded bersonol		Os oes gwrthwynebiad gan yr Heddlu	Os nad oes gwrthwynebiad
Cais am drwydded bersonol gyda cholffarnau heb ddarford		Pob Achos	
Cais am drwydded eiddo / tystysgrif eiddo clwb		Os cyflwynir sylwadau perthnasol	Os na chyflwynir sylwadau perthnasol
Cais am ddatganiad dros dro		Os cyflwynir sylwadau perthnasol	Os na chyflwynir sylwadau perthnasol
Cais i amrywio trwydded eiddo/ tystysgrif eiddo clwb		Os cyflwynir sylwadau perthnasol	Os na chyflwynir sylwadau perthnasol
Cais i amrywio goruchwyliwr eiddo dynodedig		Os oes gwrthwynebiad gan yr Heddlu	Pob achos arall
Cais i gael ei ddileu fel goruchwyliwr eiddo dynodedig			Pob Achos
Cais i drosglwyddo trwydded eiddo		Os oes gwrthwynebiad gan yr Heddlu	Pob achos arall
Ceisiadau am awdurdodau dros dro		Os oes gwrthwynebiad gan yr Heddlu	Pob achos arall
Cais i adolygu trwydded eiddo / tystysgrif eiddo clwb		Pob Achos	
Penderfyniad ynghylch a yw cwyn yn amherthnasol, yn wamal, yn flinderus, ac ati.			Pob Achos

Y Mater i ymdrin ag ef	Pwyllgor Llawn	Is-bwyllgor	Swyddogion
Penderfyniad i wrthwynebu pan mae'r awdurdod lleol yn ymgynghorai ac ddim yr awdurdod perthnasol yn ystyried y cais		Pob Achos	
Penderfynu ar wrthwynebiad yr Heddlu i hysbysiad digwyddiad dros dro		Pob Achos	

Rhaid i apelïadau yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod Trwyddedu gael eu gwneud i lys ynadon o fewn 21 diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r apelydd yn cael ei hysbysu gan yr awdurdod trwyddedu am y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn.

15.0 | Ystyriaethau Arbennig

Adloniant Oedolion

- 15.1** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi mabwysiadu rheolaethau yn ffurfiol ar Leoliadau Adloniant Rhyw.
- 15.2** Effaith y penderfyniad hwn yw y bydd lleoliadau adloniant rhywiol yn cael ei gynnwys yn y gyfundrefn drwyddedu bresennol sy'n rheoli sefydliadau rhyw eraill, sef siopau rhyw a sinemâu rhyw.
- 15.3** Bydd yn drosedd i weithredu eiddo o'r fath heb y Drwydded Sefydliad Rhyw angenrheidiol mewn grym, neu i fethu â gweithredu yn unol â'r telerau ac amodau y mae trwydded o'r fath wedi cael ei rhoi.
- 15.4** Mae lleoliad adloniant rhyw yn cael ei ddiffinio fel 'unrhyw eiddo lle mae adloniant perthnasol yn cael ei ddarparu o flaen cynulleidfa fyw ar gyfer elw ariannol y trefnydd neu'r difyrwr' ac mae'n cynnwys gweithgareddau megis glin-ddawnsio; polyn-ddawnsio; bwrdd-dawnsio; sioe stripio; sioe sbecian a sioeau rhyw byw.
- 15.5** Os yw Trwydded Eiddo Deddf Trwyddedu 2003 mewn grym sy'n caniatáu adloniant rheoledig ar ffurf cerddoriaeth neu ddawnsio neu adloniant o fath tebyg, bydd yn bosibl ar gyfer adloniant o'r math a amlinellir yn y paragraff uchod gael ei gynnal ddim mwy na 11 o weithiau o fewn cyfnod o 12 mis. Rhaid bod o leiaf mis rhwng pob achlysur ac ni all achlysur o'r fath bara mwy na 24 awr.
- 15.6** Mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn bod 'stripograms' a gweithgareddau tebyg yn dod o dan y diffiniad o adloniant rhywiol os yw'r trwyddedai yn trefnu neu'n eu darparu ac yn yr amgylchiadau hyn, felly, ni ddylent ddigwydd oni bai bod Trwydded Sefydliad Rhyw mewn grym. Fodd bynnag, gall eiddo fanteisio ar y ddarpariaeth defnydd achlysurol a nodir yn y paragraff uchod.

- 15.7** Gofynnir i drwyddedai ddarparu hysbysiad i'r Awdurdod Trwyddedu pan maent yn darparu neu'n caniatáu adloniant rhywiol o dan y ddarpariaeth defnydd achlysurol a nodir ym mharagraff 20.5 uchod, neu pan fod 'stripograms' wedi perfformio yn eu heiddo. Cysylltwch â licensing@flintshire.gov.uk neu ar 01352 703 030

16.0 | Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

16.1 Mae'r Ddeddf hon yn gofyn i Awdurdodau Lleol yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn cefnogi ac yn yn hyrwyddo amcanion trwyddedu. Mae'r Ddeddf yn cysylltu'n benodol i atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus. Mae'n cydnabod bod angen creu lleoliadau sain priodol – yr amgylchedd acwstig iawn yn y lle a'r amser iawn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried rheolaeth sŵn a'r lleoliadau ac yn benodol y pum ffordd o weithio a gynhwysir o dan y ddeddf hon, sef, i) Hirdymor – pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr gydag anghenion i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor, ii) Intregreiddio, iii) Cysylltu iv) Cydweithio ac v) Atal. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu 'Cynllun Gweithredu Ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023' <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/noise-and-soundscape-action-plan.pdf>

Bydd gan yr Awdurdod Lleol ymwybyddiaeth hefyd o'r ddeddfwriaeth canlynol wrth benderfynu rhyddhau ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Trwyddedu. Nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn:-

- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n delio â sain ac aflonyddwch
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2005 sy'n delio â diogelwch tân
- Deddf Priffyrdd 1980 sy'n delio â thrwyddedau caffï ar balmart.

17.0 | Y Gofrestr Drwyddedu

17.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cadw cofrestr drwyddedu ar-lein y gellir ei gweld yn www.flintshire.gov.uk.

17.2 Ni fydd y taliadau a godir am gopiâu o geisiadau yn fwy na'r gost o baratoi copiâu o'r fath.

Manylion Cyswilt:

Gellir cysylltu â Chyngor Sir y Fflint ynghylch y Ddeddf Trwyddedu 2003 a materion cysylltiedig yn:

Rhif Ffôn: 01352 703030


~~Ffacs: 01352 703341~~

E-bost: licensing@flintshire.gov.uk

Gwefan: www.flintshire.gov.uk

Atodiad A

GWEITHDREFN ADOLYGU EIDDO TRWYDDEDIG YN CYNWYS DULL DATRYS PROBLEMAU FEL GRŴP



Ar unrhyw lefel, gan ddibynnu ar rinweddau'r achos, gellir penderfynu gwneud cais am adolygiad o drwydded eiddo. Mae symud ymlaen i bob lefel yn broses ddewisol ac mae'r siart lif hwn wedi'i gynllunio fel templed ar gyfer symud ymlaen a monitro penllanw trwydded Eiddo Trwyddedig trafferthus.

Atodiad B

ALCOHOL AC IECHYD YNG NGHYMRU

Mae'r defnydd o alcohol a'i ganlyniadau yn parhau i fod yn her iechyd cyhoeddus arwyddocaol yng Nghymru, y DU ac yn ehangach. Mae'r defnydd niweidiol o alcohol ymysg y pum prif ffactor sy'n peri risg o salwch, anabledd a marwolaeth ledled y byd.

- Mae cyfran yr oedolion sy'n yfed mwy o alcohol na'r canllawiau wythnosol (yn yfed mwy nag 14 uned o alcohol ar gyfartaledd bob wythnos) wedi aros ar lefel debyg ers 2016. Datgelodd data a gyhoeddwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2019 bod 19% o oedolion (16 oed a throsodd) yn yfed dros y canllawiau wythnosol o gymharu â 20% yn 2016..
- Mae cyfraddau yfed alcohol yn ôl rhyw yn dangos bod 25.8% o ddynion yn yfed mwy na'r canllawiau wythnosol o gymharu â 12.7% o ferched a bod pobl rhwng 45 a 65 yn yfed yn fwy aml nag unrhyw grŵp oedran arall (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus, 2019).
- Ers 2009-10 mae cyfran y derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad uniongyrchol i alcohol ymysg pobl dros 50 wedi codi bron 23% (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020).
- Mae cysylltiad cryf rhwng amddifadedd â derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i alcohol. Roedd cyfran yr holl gleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty yn dioddef o gyflyrau cysylltiedig ag alcohol a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig 2.7 gwaith yn uwch na derbyniadau pobl o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2020).
- Mae marwolaethau o ganlyniad i gyflyrau sy'n benodol gysylltiedig ag alcohol wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 2013. Fodd bynnag, disgynnodd nifer y derbyniadau i'r ysbyty 7% yn 2019 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2020).

Mae alcohol yn chwarae rhan bwysig a chadarnhaol mewn bywyd teuluol a chymdeithasol ac yn cyfrannu at gyflogaeth a datblygiad economaidd yn lleol. Fodd bynnag ni ddylai traddodiadau cymdeithasol a manteision economaidd gelu'r ffaith fod alcohol yn sylwedd gwenwynig sy'n gallu cael effaith niweidiol ar iechyd a lles corfforol a meddyliol.

LEFELAU A PHATRYMAU YFED

Nid oes unrhyw lefel warantedig ddiogel o yfed ond mae yfed llai na'r terfynau dyddiol a argymhellir yn golygu bod y risgiau o niwed i iechyd yn isel. Nid yw hyd yn oed yfed llai na'r lefelau risg is yn ddoeth mewn rhai amgylchiadau chwaith. Ond nid faint o alcohol mae rhywun y ei yfed yn unig sy'n cynyddu'r perygl o niwed.

Mae goryfed mewn pyliau, sy'n cyfeirio at batrwm o yfed lle mae unigolyn yn yfed o leiaf ddwywaith yn fwy o alcohol na'r terfyn dyddiol a argymhellir mewn un sesiwn, yn gallu achosi meddwdod difrifol gan arwain at broblemau fel damweiniau, anaf a thrais. Yn fwyaf cyffredin ymysg grwpiau oedran iau, mae yfed mewn pyliau yn aml yn gysylltiedig ag yfed llawer o alcohol yn y cartref cyn mynd allan i dafarn neu glwb. . Mae hyn wedi'i gysylltu ag yfed lefelau uwch o alcohol yn gyffredinol a mwy o debygolrwydd o fod yn rhan o ddigwyddiad treisgar. Mae pobl yn yfed alcohol cyn mynd allan oherwydd ei fod yn llawer rhatach i'w brynu yn yr archfarchnad nag mewn siop ddioddydd drwyddedig, tafarn neu far.

Gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried sylwadau gan gyrff iechyd sy'n gweithredu fel awdurdodau cyfrifol. Gall y gyrff iechyd ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol o ran hyrwyddo diogelwch y cyhoedd, sydd yn un o'r amcanion trwyddedu, sy'n cynnwys atal damweiniau ac anafiadau a niwed arall a all ddigwydd o ganlyniad uniongyrchol i yfed alcohol, er enghraifft mynd yn anymwybodol neu wenwyn alcohol. Er enghraifft gall meddwdod achosi damweiniau ac anafiadau o ganlyniad i drais gan arwain at bresenoldeb mewn adrannau damweiniau ac argyfwng a'r defnydd o'r gwasanaeth ambiwlans. Mewn rhai achosion bydd hyn hefyd yn cynnwys toriadau o'r amcan drwyddedu trosedd ac anhrefn. O ran diogelu plant rhag niwed mae dyletswydd i'w diogelu rhag niwed moesegol, corfforol a seicolegol felly mae llawer o botensial i gyrff iechyd ychwanegu gwerth. Gall presenoldeb pobl dan 18 mewn adrannau Damweiniau ac Argyfwng fod yn berthnasol i'r amcan o ddiogelu plant rhag niwed a bydd i werthiant alcohol dan oed neu werthiannau procsi oblygiadau o ran yr amcanion trosedd ac anhrefn a diogelu plant rhag niwed. Gall timau iechyd helpu i ddarparu tystiolaeth ategol, er enghraifft cysylltiedig â'r effeithiau y gall yfed alcohol eu cael ar y corff adolescent. Mewn rhai ardaloedd y prif beth sy'n rhwystro gyrff iechyd rhag gweithredu'n effeithiol fel awdurdod cyfrifol yw'r ffaith nad yw'r dystiolaeth y maent ei hangen i gefnogi eu sylwadau'n cael ei chasglu fel mater o drefn neu ddim ar gael yn eu hardal.

Mae Cyngor Wrecsam a'i bartneriaid, Ysbyty Maelor Wrecsam, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwllans Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar hyn o bryd i wella casglu a rhannu data. Mae bwriad i weithredu hyn ar draws Gogledd Cymru i gyd. Dylai'r data a gesglir gynorthwyo'n fawr i dargedu gorfodaeth i'r manau lle mae ei angen, hysbysu polisi trwyddedu a chyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau trwyddedu.

Atodiad C

Amodau Gorfodol

1. Goruchwylwyr Drysau

Dim ond unigolion wedi'u trwyddedu gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch fydd yn cael eu defnyddio yn yr eiddo i ymgymryd â gweithgareddau diogelwch, sy'n cynnwys gwarchod yn erbyn:

- a) Mynediad neu bresenoldeb heb awdurdod (ee. trwy oruchwylio drysau)
- b) Achosion o anhrefn
- c) Difrod

2. Amod gorfodol amgen eiddo cymunedol

Rhaid i bob cyflenwad o alcohol o dan y Drwydded Eiddo gael ei wneud neu ei awdurdodi gan y pwyllgor rheoli.

3. Arddangos ffilmiau

Bydd rhoi mynediad i blant o dan 18 oed i arddangosfeydd ffilmiau a ganiateir o dan amodau'r dystysgrif hon yn cael ei gyfyngu yn unol ag unrhyw argymhellion a wneir:

- a) Gan Fwrdd Categori Ffilmiau Prydain (BBFC) pan fydd y ffilm wedi cael ei chategori gan y Bwrdd, neu
- b) Gan yr awdurdod trwyddedu lle nad oes dystysgrif categori wedi ei roi gan y BBFC neu
- c) lle mae'r awdurdod trwyddedu wedi hysbysu'r clwb sy'n dal y dystysgrif fod adran 20(3) (b) (74(3) (b) ar gyfer clybiau) Deddf Trwyddedu 2003 yn gymwys i'r ffilm.

4. Cyflenwi alcohol

1 Ni chaniateir cyflenwi alcohol o dan y Drwydded Eiddo hon:

- Ar adeg pan nad oes unrhyw Oruchwyliwr Eiddo Dynodedig mewn perthynas â'r Drwydded Eiddo; neu
- Ar adeg pan nad oes gan y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig Drwydded Bersonol neu mae ei Drwydded Bersonol wedi'i hatal.

2 Rhaid i bob gwerthiant neu gyflenwad o alcohol a wneir o dan y drwydded hon gael ei wneud neu ei awdurdodi gan berson sy'n dal Trwydded Bersonol.

3 Bydd yr unigolyn â chyfrifoldeb yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw staff ar yr eiddo perthnasol yn cynnal, trefnu na chymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddiadau anghyfrifol mewn perthynas â'r eiddo. Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddiad anghyfrifol yn golygu unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau canlynol, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, a gynhaliwyd at y diben o annog gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn yr eiddo mewn ffordd sy'n cario risg sylweddol o arwain at neu gyfrannu at drosedd ac anhrefn, peryglu diogelwch y cyhoedd, niwsans cyhoeddus, neu niwed i blant:

- Gemau neu weithgareddau eraill sy'n ei gwneud yn ofynnol, yn annog neu sydd wedi'u cynllunio i'w gwneud yn ofynnol, neu annog, unigolion i -

- Yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (ac eithrio yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd yn yr eiddo cyn diwedd y cyfnod yr awdurdodwyd yr unigolyn â chyfrifoldeb i werthu neu gyflenwi alcohol), neu
 - Yfed cymaint o alcohol â phosibl (o fewn cyfyngiad amser, neu fel arall);
 - Darparu symiau digyfyngiad neu symiau amhenodol o alcohol am ddim neu am ffi benodol neu ostyngedig i'r cyhoedd neu i grŵp a ddiffiniwyd gan nodweddion penodol (ac eithrio hyrwyddiad neu ostyngiad sydd ar gael i unigolyn mewn perthynas ag alcohol i'w werthu gyda phryd o fwyd, fel y diffiniwyd yn adran 159 y Ddeddf);
 - Darparu alcohol am ddim neu am bris gostyngedig neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai;
 - Darparu alcohol am ddim neu am bris gostyngedig mewn perthynas â gwylio digwyddiad chwaraeon yn yr eiddo, os yw'r ddarpariaeth alcohol yn ddibynnol ar:
 - Ganlyniad ras, cystadleuaeth neu ddigwyddiad neu broses arall; neu
 - Y tebygrwydd y bydd unrhyw beth yn digwydd neu ddim yn digwydd;
 - Gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu daflenni hyrwyddo yn, neu ger, yr eiddo y gellir ystyried sy'n goddef, annog neu'n glamoreiddio ymddygiad gwrthgymdeithasol neu'n cyfeirio at effaith meddwdod mewn unrhyw fodd ffafriol.
- 4 Bydd yr unigolyn â chyfrifoldeb yn sicrhau nad oes unrhyw alcohol yn cael ei dywallt gan un unigolyn yn uniongyrchol i mewn i geg unigolyn arall (ac eithrio os nad yw'r unigolyn arall yn gallu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).
- 5 Bydd yr unigolyn â chyfrifoldeb yn gwneud yn siŵr bod dŵr tap am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid os yw ar gael.
- 6 (1) Dylai'r deilydd Trwydded Eiddo neu'r deilydd Tystysgrif Eiddo Clwb sicrhau bod polisi gwirio oed yn berthnasol i'r eiddo mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.
- (2) Mae'n rhaid i'r polisi ei wneud yn ofynnol i unigolion y mae'r unigolyn â chyfrifoldeb yn credu sy'n ymddangos dan 18 oed (neu unrhyw oedran hŷn a nodwyd yn y polisi) gynhyrchu ar gais, cyn cael alcohol, gerdyn adnabod sy'n dangos eu llun, dyddiad geni a marc holograffig.
- 7 Bydd yr unigolyn â chyfrifoldeb yn sicrhau:
 - Os yw unrhyw un o'r diodydd alcoholig a ganlyn yn cael eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed yn yr eiddo (ac eithrio diodydd alcoholig sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi wedi'u paratoi eisoes i'w gwerthu neu eu cyflenwi mewn cynhwysydd sydd wedi cau) eu bod ar gael i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn:
 - cwrw neu seidr: ½ pint;
 - jin, rym, fodca neu wisgi: 25ml neu 35ml; a
 - gwin llonydd mewn gwydr: 125ml;
 - bydd cwsmeriaid yn cael gwybod am argaeledd y mesurau hyn.

Atodiad D

Newidiadau Deddfwriaethol Diweddar

Deddf Cerddoriaeth Fyw

Mae Gorchymyn Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 a Deddf Trwyddedu 2003 (Disgrifiad o Adloniant) (Diwygio) yn cael gwared ar yr angen am y canlynol:

- Arddangosfeydd ffilm at ddibenion hysbysebu, gwybodaeth, addysg ac ati
- Arddangosfeydd ffilm sy'n ffurfio rhan o arddangosfa a roddwyd ar gyfer unrhyw ddibenion amgueddfa neu oriel gelf
- Cerddoriaeth boed yn fyw neu wedi'i recordio, sy'n gysylltiedig â gweithgareddau eraill nad ydynt angen trwydded
- Cerddoriaeth fyw fel a ganlyn:
 - Cerddoriaeth fyw wedi'i chwyddo rhwng 8am ac 11pm o flaen cynulleidfaoedd o ddim mwy na 200 o bobl mewn eiddo a awdurdodwyd i werthu alcohol i'w yfed yn yr eiddo
 - Cerddoriaeth fyw wedi'i chwyddo rhwng 8am ac 11pm o flaen cynulleidfaoedd o ddim mwy na 200 o bobl mewn gweithleoedd na fyddent fel arall wedi'u trwyddedu fel arall o dan Ddeddf 2003 (neu wedi'u trwyddedu yn unig ar gyfer darparu lluniaeth hwyr y nos)
 - Cerddoriaeth heb ei chwyddo rhwng 8am ac 11pm ym mhob lleoliad
- Defnyddio derbynwyr teledu neu radio ar gyfer derbyn a chwarae rhaglen ar y pryd
- Unrhyw gyfleusterau adloniant mewn man addoli crefyddol cyhoeddus
- Adloniant mewn ffeiriau gardd neu swyddogaethau tebyg oni bai bod elfen o elw preifat.
- Dawnsio Morris neu ddawnsio o natur debyg neu berfformiad o gerddoriaeth fyw heb ei chwyddo fel rhan o berfformiad o'r fath
- Adloniant ar gerbydau ffordd sy'n symud
- Perfformio neu chwarae o flaen cynulleidfa o 500 o bobl neu lai rhwng 8am ac 11pm
- Perfformio dawns o flaen cynulleidfa o 500 o bobl neu lai (oni bai ei fod yn adloniant perthnasol o fewn ystyr Atodlen 3 para 2a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 h.y. rhai mathau o adloniant rhywiol) rhwng 8am ac 11pm.
- Digwyddiadau chwaraeon dan do o flaen cynulleidfa o 1000 o bobl neu lai rhwng 8am ac 11pm

Y Mesur Mewnfudo

Mae'r Mesur Mewnfudo yn rhoi cyfrifoldebau ychwanegol ar awdurdodau trwyddedu i weithredu lle canfyddir nad oes gan ddeiliaid trwydded hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig.

Deddf Dadreoleiddio

Eithriadau Lluniaeth Hwyr y Nos

Mae paragraff 2A o Atodlen 2 i Ddeddf 2003 (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Dadreoleiddio 2015) yn rhoi pwerau i awdurdodau trwyddedu i eithrio eiddo, mewn rhai amgylchiadau, rhag y gofyniad i gael trwydded i ddarparu lluniaeth hwyr y nos. Mae'n well gwneud penderfyniadau i eithrio cyflenwadau lluniaeth hwyr y nos gyda gwybodaeth leol. Mae'r pwerau felly yn caniatáu i awdurdodau trwyddedu i ddewis gwneud eithriad penodol lle maent yn meddwl y bydd yn ddefnyddiol i fusnesau a lle nad oes unrhyw broblemau gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu anhrefn sy'n gysylltiedig â'r economi gyda'r nos. Yn ogystal â rhyddhau'r busnesau o dan sylw o gostau diangen, gall hyn hefyd ddarparu mwy o hyblygrwydd i awdurdodau trwyddedu i dargedu eu hadnoddau yn fwy effeithiol.

Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i awdurdod trwyddedu perthnasol i eithrio cyflenwad o luniaeth os yw'n digwydd:

- ar neu o eiddo sydd wedi'u lleoli yn gyfan gwbl mewn ardal ddynodedig;
- ar neu o eiddo sydd o ddisgrifiad dynodedig; neu
- yn ystod cyfnod dynodedig (gan ddechrau dim cynharach na 11:00pm ac yn gorffen heb fod yn hwyrach na 5:00am).

Wrth ddewis i ddynodi ardal benodol eithriedig, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu perthnasol ddiffinio'r lleoliad, a all fod o unrhyw faint.

Wrth ddewis i ddynodi categorïau penodol o eiddo fel rhai eithriedig, gall awdurdod trwyddedu ddim ond eithrio'r mathau o eiddo a nodir yn y rheoliadau. Sef:

- ardaloedd gwasanaeth traffyrdd;
- Gorsafoedd Petrol;
- eiddo awdurdodau lleol (ac eithrio eiddo domestig) oni bai fod digwyddiad yn cael ei gynnal lle mae mwy na 500 o bobl yn bresennol;
- ysgolion (ac eithrio eiddo domestig) oni bai fod digwyddiad yn cael ei gynnal lle mae mwy na 500 o bobl yn bresennol;
- ysbytai (ac eithrio eiddo domestig);
- eiddo cymunedol (eglwys, capel, neuadd bentref, plwyf neu gymunedol neu adeilad tebyg) oni bai fod digwyddiad yn cael ei gynnal lle mae mwy na 500 o bobl yn bresennol;
- eiddo trwyddedig a awdurdodir i werthu alcohol i'w yfed yn yr eiddo rhwng 11pm a 5am.

Nid oes rhaid i awdurdodau trwyddedu ddefnyddio'r eithriadau o gwbl a gall barhau i ofyn i'r holl ddarparwyr lluniaeth hwyr y nos gael eu trwyddedu. Fodd bynnag, dylai awdurdodau trwyddedu ystyried dadreoleiddio lle bo'n briodol.

Hysbysiad Gwerthwyr Cymunedol ac Ategol

Nid yw'r ddeddfwriaeth ddrafft a/ neu eilaidd wedi cael ei chwblhau eto ar gyfer CAN (Hysbysiad Gwerthwyr Ategol yn y Gymuned) ond rhagwelir y bydd y gallu i grwpiau cymunedol a darparwyr llety busnesau bach i ddarparu/ gwerthu symiau cyfyngedig o alcohol i wneud cais am CAN. Byddai'r CAN yn para am gyfnod o dair blynedd gyda'r posibilrwydd y gallai gwasanaeth Diogelu'r Amgylchedd a'r Heddlu wrthwynebu o'r cychwyn cyntaf.

Gallai opsiynau wedi'u cynnwys o bosibl yn y ddeddfwriaeth gynnwys y canlynol

- Gellir gwerthu alcohol rhwng 7am a 11pm
- Bydd rhybudd yn cael ei roi i'r awdurdod trwyddedu
- Bydd y ffi a ragnodwyd yn cael ei dalu
- Gall yr Heddlu, yr Awdurdod Iechyd yr Amgylchedd a'r awdurdod trwyddedu wrthwynebu os bydd CAN yn tanseilio'r amcanion trwyddedu. Os bydd problemau'n codi, gall yr heddlu a'r awdurdod iechyd yr amgylchedd wrthwynebu, ac o ganlyniad gellir dirymu'r CAN.
- Bydd gan yr Heddlu a swyddogion yr awdurdod trwyddedu hawliau mynediad i ymchwilio lle mae defnyddwyr yn torri amodau CAN.
- Dim hawl i wrandawriad neu apêl os yw caiff CAN ei ddirymu
- Rhaid i werthu alcohol fod yn atodol i ddarparu nwyddau neu wasanaethau gan y busnes.
- Gwerthu alcohol o eiddo unigol a enwir.
- Gwerthu Alcohol i'w yfed yn yr eiddo a enwyd
- Rhaid i'r gwerthu alcohol fod gan neu ar ran grŵp cymunedol nad yw'n masnachu er mwyn gwneud elw.
- Rhaid i'r gwerthu alcohol fod yn atodol i ddigwyddiad cymunedol wedi'i drefnu.
- Gall y gwerthiant o alcohol gael ei wneud o hyd at dri eiddo a enwir.
- Gwerthu alcohol i'w yfed mewn digwyddiadau a drefnwyd o hyd at 300 o bobl

Atodiad E

Rhestr Termau

Personau Awdurdodedig - personau awdurdodedig yw cyrff â grym i wneud gwaith arolygu a gorfodi o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Tystysgrif eiddo clwb – Yn awdurdodi **clwb cymwys** i gynnal 'gweithgareddau clwb cymwys' o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae hyn yn cynnwys tystysgrifau â chyfyngiad amser.

Amodau - mae tri math o amodau

1. **Amodau Arfaethedig** - amodau a gynigir gan yr ymgeisydd yn yr atodlen weithredu.
2. **Amodau a osodir** - yn amodau a osodwyd gan yr awdurdod trwyddedu ar ôl gofyn am ei ddisgresiwn yn dilyn derbyn sylwadau perthnasol.
3. **Amodau Gorfodol** - amodau a ragnodir gan y Ddeddf ac yn cael eu cynnwys ym mhob trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb pan fo gweithgareddau trwyddedadwy penodol yn cael eu cynnal.

Ardal Effaith gronnu – Ardal mae'r **awdurdod trwyddedu** wedi nodi yn eu datganiad polisi trwyddedu fel un sydd â dirlawnder o eiddo trwyddedig a gallai'r 'effaith gronnu' o unrhyw eiddo trwyddedig ychwanegol gael effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu statudol.

Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig (DPS) – Fel arfer bydd hwn y person sydd wedi cael y cyfrifoldeb am redeg yr eiddo o ddydd i ddydd gan y **deiliad trwydded eiddo**. Mae'n ofynnol i bob trwydded eiddo sy'n awdurdodi gwerthu alcohol o dan Ddeddf 2003 i nodi DPS. Rhaid i'r DPS fod yn ddeiliad **trwydded bersonol**. Yr unig eithriad yw ar gyfer eiddo cymunedol sydd wedi gwneud cais llwyddiannus i'r ALI i gael eu heithrio o'r gofyniad.

Gorchymyn cyfyngu alcohol bore cynnar - Pŵer o dan adran 119 **Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011** i wahardd gwerthu alcohol am gyfnod penodol o amser rhwng yr oriau o 12am a 6am, os ystyrir yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu .

Adolygiad Brys/ Cryno - Gall prif swyddog yr heddlu wneud cais am adolygiad brys/ cryno o **drwydded eiddo** oherwydd troseddau difrifol a / neu anhrefn difrifol o dan s.53A Deddf Trwyddedu 2003.

Bandiau Ffi - Wrth benderfynu ar y swm ffi'r drwydded ar gyfer ceisiadau am **drwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb** newydd, ac amrywiadau llawn i drwyddedau neu dystysgrifau, mae pob eiddo yn disgyn i fand yn seiliedig ar ei werth ardrethol annomestig. Ers cyflwyno Deddf 2003 tan 2012/13, mae'r ffioedd ceisiadau sy'n gysylltiedig â phob band am drwydded neu dystysgrif newydd wedi bod fel a ganlyn: Band A (£100); Band B (£190); Band C (£315); Band D [dim **lluosydd**] (£450); Band D trwydded

eiddo gyda **lluosydd** (£900); Band E [dim lluosydd] (£635); Band E trwydded eiddo gyda lluosydd (£1905). Mae'r ffioedd blynyddol dilynol sy'n gysylltiedig â phob trwydded neu dystysgrif fel a ganlyn: Band A (£70); Band B (£180); Band C (£295); Band D [dim lluosydd] (£320); Band D trwydded eiddo gyda lluosydd (£640); Band E [dim lluosydd] (£350); Band E trwydded eiddo gyda lluosydd (£1050).

Fforffedu (trwydded bersonol) - Atal yn dilyn gorchymyn llys o dan a.129 Deddf Trwyddedu 2003 penodedig (a lle nad yw'r gorchymyn hwnnw wedi cael ei atal dros dro, hyd nes apêl o dan a.129(4) neu 130 o'r Ddeddf).

Gwrandawriad - A ddefnyddir yng nghyd-destun ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** sy'n mynd i wrandawriad ar gyfer penderfynu ar geisiadau am drwydded eiddo, ar gyfer datganiadau dros dro, i amrywio trwydded eiddo, am dystysgrifau eiddo clwb, ac i amrywio tystysgrifau eiddo clwb .

Adolygiad barnwrol - Yn cynnwys dim ond y rheiny lle hysbysodd yr Uchel Lys bartïon o'i benderfyniad yn y cyfnod amser penodedig.

Darfod (tystysgrif clwb) – Pan mae **tystysgrif eiddo clwb** wedi dod i ben oherwydd ei fod wedi bod mewn grym am gyfnod cyfyngedig, ond bod y cyfnod wedi dod i ben ers hynny.

Darfod (trwydded eiddo) - Pan mae **trwydded eiddo** wedi dod i ben oherwydd marwolaeth, analluogrwydd, ansolfedd ac ati deiliad y drwydded, fel y nodir o dan adran 27 **Deddf Trwyddedu 2003**. Nid yw'n cynnwys achosion lle'r oedd trwydded eiddo mewn grym am gyfnod cyfyngedig, ond bod y cyfnod wedi dod i ben ers hynny (e.e. digwyddiadau un-tro).

Gorchymyn ardoll hwyr y nos - Pŵer dewisol i awdurdodau trwyddedu o dan adran 125 **Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011**. Mae'r ardoll hwyr y nos yn cael ei dalu gan yr eiddo trwyddedig hynny i werthu alcohol yn hwyr yn y nos i godi cyfraniad tuag at gostau plismona'r economi hwyr y nos.

Lluniaeth gyda'r hwyr - Darparu bwyd poeth neu ddioid i'r cyhoedd, i'w yfed ar neu oddi ar yr eiddo, rhwng 11pm a 5am neu gyflenwi bwyd poeth neu ddioid boeth i unrhyw un rhwng yr oriau hynny ar neu o eiddo lle mae mynediad i'r cyhoedd.

Awdurdod trwyddedu - yr awdurdod trwyddedu sy'n gyfrifol am drwyddedu alcohol, adloniant rheoledig a lluniaeth hwyr y nos.

Mân amrywiad (i drwyddedu neu dystysgrif) - Ceisiadau a wneir o dan a.41A neu a.86A **Deddf Trwyddedu 2003** i wneud newidiadau risg isel i delerau **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**. Mae'r ffi ar gyfer mân amrywiad wedi'i ragnodi yn y Ddeddf.

Lluosydd – Caiff lluosyddion eu defnyddio mewn perthynas ag eiddo a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed yn yr eiddo o dan awdurdodiad **trwydded eiddo (bandiau ffioedd D ac E yn unig)**.

Gwerthu Alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo – Gwerthu alcohol trwy fanwerthu i'w yfed oddi ar yr eiddo.

Gwerthu Alcohol i'w yfed ar yr eiddo - Gwerthu alcohol trwy fanwerthu a'i gyflenwi (gan glybiau) i'w yfed ar yr eiddo.

Pobl eraill - Unrhyw unigolyn, corff neu fusnes sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ganiatáu ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**. Gall personau eraill gyflwyno sylwadau perthnasol i'r awdurdod trwyddedu perthnasol, a gallant ofyn am adolygiad o'r trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb.

Trwydded bersonol – Yn awdurdodi unigolyn i gyflenwi neu awdurdodi cyflenwi alcohol yn unol â **thrwydded eiddo** o dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae ffi'r cais am drwydded bersonol yn cael ei ragnodi yn y Ddeddf.

Trwydded Eiddo - Awdurdodi eiddo i gael ei ddefnyddio ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol, darparu adloniant rheoledig neu ddarparu **lluniaeth hwyr y nos**, dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae hyn yn cynnwys trwyddedau eiddo â therfyn amser. Mae ffi trwydded eiddo yn seiliedig ar ei werth ardrethol annomestig. Mae ffioedd cais yn amrywio o £100 (Band A) i £1,905 (Band E gyda lluosydd); mae ffioedd blynyddol yn amrywio o £70 i £1,050.

Clwb cymwys - Mae'n rhaid i nifer o feini prawf gael eu bodloni cyn cael ei ystyried yn glwb cymwys am **dystysgrif eiddo clwb**. Sef:

- o dan reolau'r clwb, na fydd pobl yn cael eu derbyn am aelodaeth neu gael eu derbyn fel ymgeiswyr ar gyfer aelodaeth, neu i unrhyw un o freintiau aelodaeth heb gyfnod o ddau ddiwrnod o leiaf rhwng eu henwebiad ar gyfer aelodaeth a'u derbyn;
- bod y clwb wedi'i sefydlu a'i gynnal mewn ewyllys da fel clwb;
- bod gan y clwb o leiaf 25 aelod; a
- nad yw alcohol yn cael ei gyflenwi i aelodau ar yr eiddo ac eithrio gan neu ar ran y clwb.

Sylwadau perthnasol - Sylwadau sydd am effaith debygol caniatáu ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, sy'n cael eu gwneud gan awdurdod cyfrifol neu berson arall o fewn y cyfnod a ragnodir o dan adran 17(5)(c) o'r Ddeddf, sydd heb gael eu tynnu'n ôl, ac yn achos y sylwadau a wnaed gan bobl eraill, nad ydynt, ym marn yr awdurdod trwyddedu perthnasol yn wamal neu'n flinderus.

Awdurdod cyfrifol - cyrff cyhoeddus y mae'n rhaid eu hysbysu am geisiadau **trwydded eiddo** penodol neu **dystysgrif eiddo clwb** ac mae ganddynt hawl i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu. Maent yn cynnwys

- yr awdurdod trwyddedu ac unrhyw awdurdod trwyddedu arall dros yr ardal mae'r eiddo wedi'i leoli,
- y prif swyddog yr heddlu sy'n gyfrifol am yr ardal lle y mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod tân ac achub ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod gorfodaeth ar gyfer Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am leihau neu atal y risg o lygru'r amgylchedd neu o niwed i iechyd pobl mewn unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli mewn perthynas â,

- corff sy'n cynrychioli rhai sydd, mewn perthynas ag unrhyw ardal o'r fath, yn gyfrifol am, neu â diddordeb mewn, materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed, ac maent yn gymwys i roi cyngor ar faterion o'r fath,
- mewn perthynas â llong, awdurdod mordwyo sydd â swyddogaethau mewn perthynas â dyfroedd lle mae'r llong wedi ei hangori neu ei docio, neu unrhyw ddyfroedd lle mae, neu y bwriedir iddo, fordwyo ar adeg pan mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am bwysau a mesurau mewn unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli.

Adolygiad - Yn dilyn caniatáu **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** gall **awdurdod cyfrifol** neu **berson arall** ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded neu'r dystysgrif oherwydd mater sy'n codi yn yr eiddo mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

Dirymu (trwydded bersonol) - Os yw'r deiliad **trwydded bersonol** yn cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd yn ystod y cyfnod ymgeisio am y drwydded, gall y drwydded gael ei dirymu o dan a.124 **Deddf Trwyddedu 2003**.

Ildio (trwydded) - Os yw'r deiliad trwydded yn dymuno ei hildio, mae'n cael ei wneud yn unol â darpariaethau o dan adran 28 (am **drwydded eiddo**), adran 81 (am **dystysgrif clwb**) ac adran 116 (ar gyfer **trwydded bersonol**).

Hysbysiad o ddigwyddiad dros dro (TEN) - Hysbysiad o dan adran 100 **Deddf Trwyddedu 2003**, a ddefnyddir i awdurdodi gweithgareddau trwyddedadwy ar raddfa fach yn gymharol, yn amodol ar feini prawf a'r terfynau penodol. Mae'n cynnwys yn unig hysbysiadau sydd wedi cael eu rhoi yn gywir ac yn briodol yn y cyfnod amser penodol h.y. mae'n eithrio hysbysiadau a gafodd eu hanfon yn ôl oherwydd camgymeriadau ar y ffurflen. Mae hyn hefyd yn cynnwys hysbysiadau a gafodd eu tynnu'n ôl ar ôl hynny. Mae'r ffi ar gyfer TEN wedi'i ragnodi yn y Ddeddf.

Amrywiad (i drwydded eiddo) - Ceisiadau a wneir o dan adran 34 **Deddf Trwyddedu 2003** i newid telerau'r **drwydded eiddo**, er enghraifft yr oriau agor, mae'r gweithgareddau trwyddedadwy neu'r amodau. Mae'r ffi ar gyfer amrywio **DPS** wedi'i ragnodi yn y Ddeddf.

Amrywiad (i drwydded eiddo clwb) - Ceisiadau a wneir o dan adran 84 **Deddf Trwyddedu 2003** i newid telerau'r **drwydded eiddo clwb**, er enghraifft gweithgareddau trwyddedadwy neu'r amodau.